Adroddiad Cydraddoldeb Heddlu Gwent

2014

Gellir gwneud y Cynllun hwn ar gael (ar gais) mewn amrywiaeth o fformatau amgen:

Braille
CD Sain
PDF

Os hoffech wneud cais am gopi mewn fformat amgen neu i gael crynodeb o'r ddogfen hon mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, cysylltwch â ni yn:

Gwasanaethau Pobl,
Heddlu Gwent,
Llawr 2,
Vantage Point,
Tŷ Coch Way,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 7HF

Ffôn: 01633 642020

Ffacs: 01633 645503

Minicom: 01633 877574

www.gwent.police.uk

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

3 Cynnydd a Chyflawniadau ar yr Amcanion Cydraddoldeb
Adran A: Amcanion Cydraddoldeb Gweithredol
Adran B: Amcanion Cydraddoldeb Mewnol

4 Ein Rhwydweithiau Cefnogi Staff

5 Sut i gysylltu â ni

6 Ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae Heddlu Gwent wedi'i wneud i yrru cydraddoldeb ac amrywiaeth ymlaen trwy gyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) a'i Amcanion Cydraddoldeb Strategol.

Cyhoeddwyd SEP Gwent ar 6 Ebrill 2012, ac fe amlinellodd flaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth Heddlu Gwent ar gyfer y 4 blynedd nesaf. Pennwyd y blaenoriaethau hyn trwy ymgynghori â'n staff a chymunedau ac fe'u cyflwynir fel Amcanion Cydraddoldeb Strategol. I'n helpu ni i gyflwyno'r Amcanion hyn, mae gan Heddlu Gwent Gynllun Gweithredu hefyd sy'n olrhain ein cynnydd, ac mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno.

Mae'r Cynllun Gweithredu SEP yn cysylltu ein Hamcanion â chamau gweithredu a chanlyniadau penodol, gan roi perchnogaeth glir ar gyfer pob elfen a chan bennu amserlen ar gyfer cwblhau.

Gan i'n SEP gwreiddiol gael ei lunio 2 flynedd yn ôl, yn ddiweddar mae Heddlu Gwent wedi diweddaru ein Hamcanion (sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau gwreiddiol o hyd) a'n Cynllun Gweithredu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Mae'n bosib bod amcanion wedi cael eu diwygio er mwyn estyn amserlenni ar feysydd gwaith y mae angen eu datblygu ymhellach, adlewyrchu lle mae gweithgareddau wedi'u cwblhau, neu sicrhau eu bod yn adlewyrchu bylchau presennol yng nghyflwyniad y gwasanaeth. Bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu diweddariad yn erbyn ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu gwreiddiol, y gallwch ddod o hyd iddynt ar-lein yn

http://corporate.gwent.police.uk/informationpoint/equality-and-diversity/

Amlinellir ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu diwygiedig ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn i'n helpu i gyflawni ein Dyletswydd Gyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ond yn bwysicach na hynny, i ddathlu llwyddiant wrth weithio tuag at wasanaeth heddlu teg a chyfartal ac i adnabod unrhyw waith pellach y mae angen ei gyflawni.

Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb

Ym mis Hydref 2010 cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb newydd Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus, sy'n mynnu bod Heddlu Gwent yn gwneud y canlynol wrth weithredu ei swyddogaethau mewnol ac allanol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn berthnasol i bersonél yr Heddlu ac aelodau o'n cymuned sy'n rhannu 'Nodweddion Gwarchodedig'. Mae 9 Nodwedd Warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb; Oedran, Anabledd, Ailaseinio Rhyw, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw a Thueddfryd Rhywiol.

I gynorthwyo cyrff cyhoeddus, darperir 'Rheoliadau Penodol' sy'n amlinellu'n fanylach sut y gallwn weithio tuag at gyflawni nodau'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol. Darperir Rheoliadau Penodol gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr, a chan nad yw Heddlu Gwent wedi'i ddatganoli, mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i fodloni Rheoliadau Lloegr. Fodd bynnag, fel Heddlu yng Nghymru sy'n gweithio gyda mudiadau partner datganoledig, byddwn yn anelu at fodloni gofynion Rheoliadau Cymru ble bynnag y bo'n bosib.

I wneud hyn bydd Heddlu Gwent yn:

- Cyhoeddi Gwybodaeth Gydraddoldeb mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig ein cyflogeion a nodweddion gwarchodedig pobl yr effeithir arnynt gan ein polisïau ac arferion.
- Cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (y ddogfen hon) yn amlinellu sut rydym yn cyflawni nodau'r ddyletswydd gyffredinol ac, adnabod cynnydd ac effeithiolrwydd tuag at gyflawni pob amcan cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Asesu effaith ein polisïau ac arferion arfaethedig yn erbyn ein Dyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol trwy barhau i ddefnyddio ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gan Heddlu Gwent Fwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cwrdd bob chwarter ac yn pennu'r agenda cydraddoldeb strategol. Cadeirir y cyfarfod hwn gan y Dirprwy Brif Gwnstabl ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr gan bob un o'n rhwydweithiau cefnogi staff, ein harweinwyr amrywiaeth mewnol ac allanol, ein Heiriolwyr Amrywiaeth a Rheolwyr AD. Mae Amcanion Cydraddoldeb yn eiddo i Arweinwyr Ffrwd Gwaith perthnasol gyda diweddariadau, llwyddiannau ac unrhyw rwystrau i gynnydd wedi'u hadrodd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl trwy'r Bwrdd.

Adlewyrchir ein hymrwymiad i gydraddoldeb yng ngwerthoedd Heddlu Gwent, sy'n gweithredu fel colofn ganolog popeth a wnawn o ran plismona. Ein gwerthoedd yw magu Ymddiriedaeth ynom; a bod yn Deg; yn Broffesiynol yn Ymatebol a chymryd gofal . Mae Heddlu Gwent hefyd yn dyheu am fod yn 'Gyflogwr o Ddewis". Mae ein Strategaeth Cyflogwr o Ddewis yn ymdrin â sut mae ein cyflogeion yn trin ei gilydd bob dydd, wedi'i harwain gan ein gwerthoedd sefydliadol. Pedwar egwyddor y strategaeth hon yw:

- **Arweinyddiaeth** weladwy a grymusol sy'n darparu eglurder o ran diben a datblygu yn y dyfodol
- **Rheolwyr** sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu pobl a'u trin fel unigolion
- **Cyflogwyr** sy'n ymgysylltu'n weithredol yn niben y sefydliad a'i ddatblygiad yn y dyfodol
- **Cyfanrwydd** sefydliadol er mwyn i'r gwerthoedd gael eu hadlewyrchu yn ein hymddygiadau o ddydd i ddydd

Yn ystod 2013/14 cychwynnodd Heddlu Gwent raglen o weithgareddau i roi'r Strategaeth Cyflogwr o Ddewis, a oedd yn cynnwys:

- Cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr i adnabod meysydd ar gyfer gwella cynhyrchedd a boddhad cyflogeion
- Dylunio a marchnata Arolwg Staff i'w gynnal ym mis Ebrill 2014
- Cyflwyno'r Polisi Iechyd a Lles
- Cyflwyno'r Polisi Rheoli Doniau i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu
- Cyflwyno cyfleoedd ar gyfer arloesedd a chreadigrwydd trwy gynllun syniadau ar-lein o'r enw "Ignite" a phroses "Dragon's Den"
- Ail-lansio Seremoni Wobrau'r Prif Gwnstabl i adlewyrchu diben a gwerthoedd y mudiad

3 Cynnydd a Chyflawniadau ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Adran A: Amcanion Cydraddoldeb Gweithredol

Amcan 1: Cam-drin Domestig a Thrais Seiliedig ar Anrhydedd

I sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent i gam-drin domestig yn briodol ac yn hygyrch i bob cymuned, gan gynnwys y rhai a allai wynebu rhwystrau penodol wrth adrodd am achosion o gam-drin domestig, ac i sefydlu gwir ddarlun o nifer a natur yr achosion o Drais Seiliedig ar Anrhydedd (HBV) sy'n digwydd yn ardal Heddlu Gwent.

Erys yr amcan hwn heb ei newid, ond rydym wedi newid ein cynllun gweithredu i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu bylchu cyfredol yng nghyflwyniad y gwasanaeth.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

Dros y flwyddyn ddiwethaf ailstrwythurwyd ein tîm sy'n ymdrin ag achosion cam-drin domestig yn sylweddol. Mae ein Huned Ymchwilio i Gam-drin Domestig wedi'i disodli gan Dîm Diogelu llai o 10 swyddog a staff. Mae'r Tîm Diogelu'n cadw trosolwg o'r holl achosion o gam-drin domestig trwy ein Galwad Gynhadledd Cam-drin Domestig Ddyddiol ac yn sicrhau bod dioddefwyr risg uchel yn cael eu cefnogi'n briodol. Maen nhw'n cydweithio'n agos â swyddogion lleol sydd bellach yn gyfrifol am ymchwilio i bob achos o gam-drin domestig. Mae Cynhadledd Cam-drin Domestig un diwrnod wedi'i chynllunio eleni a fydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o faterion gweithredol ar gyfer swyddogion rheng flaen ac yn cynnwys mewnbwn gan BAWSO, Cymorth Menywod ac asiantaethau partner eraill.

Gan yr ailstrwythuriad hwn, er y cwblhawyd peth gwaith da, cafwyd cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu ein Hamcan Cydraddoldeb, er hynny mae Ditectif Arolygydd newydd wedi'i benodi fel Arweinydd sydd wedi adnabod rhai ffyrdd allweddol y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

Monitro Nodweddion Gwarchodedig

Gall Nodweddion Gwarchodedig effeithio ar ddeinameg sefyllfa cam-drin domestig mewn nifer o

ffyrdd. Hefyd, gallant olygu bod pobl yn fwy agored i gam-drin domestig yn y lle cyntaf, neu effeithio ar eu tebygolrwydd o adrodd. Er enghraifft:

- Amcangyfrifir bod tua 25% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol wedi bod mewn perthynas dreisgar neu fygythiol gyda phartneriaid neu gynbartneriaid rhywbryd yn y gorffennol. Dyma'r un gyfradd â menywod heterorywiol, ond mae lefelau adrodd yn ddramatig o is.
- Yn ôl ymchwil gan Gymorth Menywod, mae un o bob pedair o fenywod yn profi cam-drin domestig. Mae'r ffigur hwn yn dyblu ar gyfer menywod sydd ag anabledd. Ar gyfer menywod anabl, gall trais domestig feddu ar ffurfiau unigryw a chymhleth, sydd yn aml yn gysylltiedig yn benodol â'u hanabledd, megis cuddio meddyginiaeth, ymosodiad corfforol neu amharodrwydd i helpu gyda mynd i'r tŷ bach.

Er mwyn deall meysydd cam-drin domestig a danadroddir yn lleol, bydd Heddlu Gwent bellach yn adolygu data a ddarperir i ni gan CAADA (Gweithredu Cydlynol yn erbyn Cam-drin Domestig) mewn perthynas â Nodweddion Gwarchodedig dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel a gyfeirir at MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth) bob blwyddyn ac yn cymryd camau i ymdrin ag unrhyw fylchau sy'n bodoli. Bydd adolygu'r data hwn yn caniatáu i ni adnabod lle mae nifer anghymesur o isel o ddioddefwyr sy'n rhannu Nodwedd Warchodedig benodol sydd, yn gyntaf yn adrodd am gam-drin domestig, ac yn ail yn cael eu cyfeirio i'r broses MARAC.

Mae data CAADA eleni wedi'i gyhoeddi fel rhan o'n Data Cydraddoldeb ac yn nodi bod Gwent wedi gweld nifer is o achosion MARAC na'r cyfartaledd cenedlaethol, yn fwyaf arwyddocaol ar gyfer pobl anabl, pobl o gefndiroedd BME a phobl LHDT. Bydd y canfyddiadau hyn yn ffocysu ein gweithgareddau dros y 12 mis nesaf ar ymgysylltu â'r cymunedau hyn mewn perthynas â materion cam-drin domestig ac annog adrodd.

Mae Heddlu Gwent hefyd wedi adnabod nifer anghymesur o isel o ddynion yn gwneud ceisiadau o dan y Cynllun Datgelu Cam-drin Domestig (Cyfraith Claire) sy'n galluogi i bobl wirio p'un a oes gan rywun hanes o gam-drin domestig. Bydd hyn hefyd yn cyfeirio ein gweithgareddau dros y misoedd wrth hyrwyddo'r cynllun i ddynion, a rhedeg cynlluniau a dargedir i gyrraedd cynulleidfaoedd gwrywaidd.

Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Yn fuan bydd ein holl staff a swyddogion sy'n gweithio yn y Tîm Diogelu'n mynd ar gwrs 3 diwrnod ar Drais Seiliedig ar Anrhydedd (HBV) a gyflwynir gan Karma Nirvana, Elusen genedlaethol sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr priodas orfodol a HBV. Mae sesiynau briffio misol wedi'u cyflwyno ar gyfer y tîm hefyd a fydd yn cynnwys mewnbwn rheolaidd ar effaith Nodweddion Gwarchodedig ar brofiadau pobl o gam-drin domestig, gan gynnwys anableddau, tueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw. Mae Heddlu Gwent hefyd yn rhan o weithgor Gwent gyfan sy'n hyfforddi staff rheng flaen o ystod o fudiadau ar Drais Seiliedig ar Anrhydedd ac Anffurfio Organau Rhywiol Menywod.

Cam-drin Domestig o fewn Cymunedau BME

Fel rhan o'n hymgynghoriad, pan fyddwn yn pennu ein Hamcanion Cydraddoldeb, adnabuwyd yr hoffai rhai cymunedau, yn benodol menywod BME, weld dulliau neu leoedd amgen iddynt adrodd am gam-drin domestig, yn hytrach na mynd yn syth at yr heddlu. Yng Nghasnewydd mae Heddlu Gwent wedi cefnogi prosiect a gynigiwyd gan aelod o'r Tîm Cymdogaeth leol i ganolbwyntio ar adeiladu hyder mewn cymunedau lleol a sefydlu cymhorthfa a ddylunnir i ddarparu cyfleoedd pellach ar gyfer pobl, yn benodol menywod BME, i adrodd am gam-drin domestig mewn amgylchedd mwy hygyrch. Bydd y prosiect hwn yn cael ei efelychu ar draws ardal yr Heddlu fel arfer da, wedi'i gefnogi gan y Tîm Diogelu, a bydd hefyd yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o fewn cymunedau am yr arferion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â Thrais Seiliedig ar Anrhydedd, Anffurfio Organau Rhywiol Menywod a phriodas orfodol.

Amcan 2: Troseddau Casineb

Sicrhau bod dioddefwyr pob math o droseddau ac achosion o gasineb yn derbyn ymateb priodol gan Heddlu Gwent a fydd yn adnabod pobl sy'n agored i niwed mewn cam cynnar, yn eu cefnogi yn y ffordd orau, ac yn cynyddu'r cyfle o erlyniad llwyddiannus.

Mae'r Amcan wedi aros heb ei newid, ond rydym wedi diwygio ein cynllun gweithredu ychydig i adlewyrchu gwaith yr oedd modd i ni ei gwblhau, a meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt o hyd.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Cynnydd sylweddol tuag at roi MARAC ar waith ar gyfer achosion risg uchel o droseddau/achosion o gasineb
- Peilota Swyddogion Cefnogi Troseddau Casineb yng Nghasnewydd
- Recriwtio Gwirfoddolwr Cefnogi'r Prosiect Troseddau Casineb i asesu lefelau boddhad dioddefwyr
- Archwiliad wythnosol o'r holl achosion a throseddau casineb i sicrhau ansawdd ymateb yr Heddlu
- Ymgyrch #HCAwarenessCymru yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref
- Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC)

Y Broses MARAC

Un o argymhellion allweddol ymholiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) i aflonyddu cysylltiedig ag anableddau oedd i Heddluoedd weithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill i adnabod dioddefwyr risg uchel yn well ac atal aflonyddu cysylltiedig ag anableddau mewn cam cynnar.

I helpu cyflawni hyn, mae holl Heddluoedd Cymru wedi ymrwymo i gynnwys datblygu MARAC o fewn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Mae MARAC yn fodel a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus eisoes i ymdrin ag achosion o gam-drin domestig risg uchel. Mae'n broses sy'n caniatáu i fudiadau rannu gwybodaeth yn gyson, asesu risg a chynllunio'n briodol i atal niwed pellach.

Ers ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf, mae proses MARAC wedi'i threialu yn Nyfed Powys, ac yng Ngwent rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth weithio tuag at roi proses MARAC ar waith yn lleol:

- Mae datrysiad TG a fydd yn caniatáu i asiantaethau hygyrchu a rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr risg uchel trwy lwyfan ar-lein ddiogel yn y camau datblygu terfynol. Bydd y system hefyd yn lleihau'r angen am gyfarfodydd wyneb wrth wyneb, yn caniatáu pennu tasgau a diweddaru'n effeithiol, ac yn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cofnodi'n effeithiol.

- Mae Heddlu Gwent yn cwblhau Asesiad Risg Dioddefwr (VRA) ar gyfer yr holl ddioddefwyr achosion o gasineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddylunnir i adnabod pa mor fregus y mae rhywun yn teimlo, yn seiliedig ar amlder, dwysedd ac effaith yr achosion. Mae'r VRA yn ystyried ar nifer o bwyntiau p'un a yw'r hyn sydd wedi digwydd yn gysylltiedig â chasineb ai beidio, ac os ydyw, mae'r VRA yn cael ei adolygu gan dîm arbenigol sy'n sicrhau yr ymatebwyd i'r achos yn briodol.

- Bob wythnos mae'r holl achosion risg uchel a adnabuwyd trwy'r VRA yn cael eu cyfeirio at grwpiau trin achosion lleol, sydd wedi'u cadeirio gan Heddlu Gwent ac yn cynnwys ystod o fudiadau partner

Adolygiadau Rheolaidd

Amlygodd ein Cynllun Gweithredu blaenorol yr angen am adolygiad mwy cyson a rheolaidd o achosion o gasineb yr adroddir amdanynt, cyfraddau erlyn a boddhad dioddefwyr. Rydym yn dal i ymgorffori prosesau a fydd yn caniatáu i ni wneud hyn, ond wedi gwneud rhai newidiadau allweddol:

- Adolygir yr holl achosion o gasineb bob wythnos gan ein Tîm Cydlyniant Cymunedol. Mae'r Tîm yn sicrhau yr ymchwiliwyd i'r troseddau, bod dioddefwyr wedi derbyn ymateb priodol, achosion wedi'u cofnodi'n briodol, a bod swyddogion yn derbyn cyngor ac arweiniad pan fydd angen.

- Cynrychiolir Heddlu Gwent ar Banel Craffu Troseddau Casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), sy'n archwilio achosion unigol o droseddau casineb ac yn adolygu ymateb y System Cyfiawnder Troseddol. Mae gwersi a ddysgwyd gan Heddlu Gwent bellach wedi'u cynnwys mewn Bwletinau Troseddau Casineb rheolaidd sy'n cael eu cylchredeg i'r holl bersonél, ac mae person arweiniol y CPS ar droseddau casineb yn mynychu Fforwm Troseddau Casineb Heddlu Gwent, lle mae lefel yr erlyniadau a phatrymau'n cael eu trafod hefyd.

- O adolygu ein data Cydraddoldeb blaenorol, roedd yn amlwg nad oeddem yn cywain digon o wybodaeth am lefelau boddhad dioddefwyr troseddau casineb er mwyn deall sut i wella'r gwasanaeth a ddarparwn. I'n helpu ni i wneud hyn yn well, rydym wedi recriwtio Gwirfoddolwr Cefnogi'r Prosiect Troseddau Casineb yn ddiweddar, a fydd yn cysylltu â'n holl ddioddefwyr achosion o gasineb i gael mwy o wybodaeth am eu profiadau gyda Heddlu Gwent.

Ymwybyddiaeth

Ers Adroddiad Blynyddol y llynedd mae ein Heiriolwyr Troseddau Casineb, a sefydlwyd ym mhob Uned Plismona Lleol (LPU) wedi cyflwyno hyfforddiant troseddau casineb i tua 400 o swyddogion a 150 o staff. Mae'r Tîm Cydlyniant Cymunedol yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau ac achosion o gasineb, eu heffaith a sut i adrodd amdanynt o fewn cymunedau a mudiadau partner. Cynhaliwyd sesiynau'n ddiweddar gyda Chyngor ar Bopeth ac ysgolion uwchradd lleol yng Nghasnewydd.

Yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref gwnaethom redeg ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashtag #HCAwarenessCymru ar ein ffrydiau Facebook a Twitter i ledaenu negeseuon dim goddefgarwch o gasineb, ac i annog pobl i adrodd am achosion. Gwnaethom gynnwys dolenni i storïau dioddefwyr, gwybodaeth mewn ystod o ieithoedd gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydeinig, a chyfeiriadau at fudiadau eraill a allai gefnogi dioddefwyr troseddau casineb. Yn ogystal â hyn, mae tudalen Troseddau Casineb ar-lein Heddlu Gwent wedi symud o'n gwefan gorfforaethol i'n gwefan gyhoeddus, gan olygu ei bod bellach yn fwy gweladwy, ac yn cynnwys gwybodaeth am adrodd am droseddau casineb i'r heddlu neu asiantaethau eraill mewn amrywiaeth o fformatau.

Gwnaethom redeg ymgyrch ymwybyddiaeth fewnol hefyd, gan ganolbwyntio ar 'edafedd' gwahanol droseddau casineb bob dydd i atgoffa swyddogion a staff am eu cyfrifoldebau wrth ymdrin ag achosion o gasineb , ac i gynyddu eu dealltwriaeth o'r cymunedau hynny sydd fwyaf agored i fod yn dargedau.

Adrodd a Chofnodi

Gall dioddefwyr troseddau casineb fod yn amharod i adrodd am achosion am amrywiaeth o resymau. Mae'n bosib eu bod yn wynebu rhwystrau materol fel anawsterau cyfathrebu, neu feddu ar lefel isel o hyder yn yr heddlu oherwydd profiadau blaenorol neu bryderon na fyddant yn derbyn cefnogaeth briodol. Wrth edrych ar ein data cydraddoldeb ar gyfer 2013/14 sy'n cynnwys y nifer o droseddau ac achosion o gasineb yr adroddwyd amdanynt wedi codi rhai materion ar ein cyfer y bwriadwn ymdrin â hwy dros y 12 mis nesaf.

Mae adroddiadau o achosion o gasineb cysylltiedig â phobl hoyw a thrawsryw wedi codi ers 2012/13,

ac yn fwy sylweddol byth ers 2011 pan gyflwynwyd ein Swyddogion Cyswllt LHDT sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i gefnogi dioddefwyr y cyfryw achosion. Yn 2011, adroddwyd am 19 achos o gasineb yn erbyn pobl hoyw ac 1 yn unig yn erbyn pobl drawsryw. Yn 2012/13, adroddwyd am 77 achos o gasineb yn erbyn pobl hoyw a 10 yn erbyn pobl drawsryw. Mae llawer o'n Swyddogion Cyswllt yn derbyn adroddiadau o achosion yn uniongyrchol trwy eu gwaith ymgysylltu â Fforymau LHDT lleol, neu gan ddioddefwyr sydd bellach â mwy o hyder y byddant yn cael eu trin yn sensitif.

"Doeddwn i ddim am fynd â'r peth ymhellach, daethant â rhywun o'r LHDT (Tîm y Swyddogion Cyswllt) i gysylltu â mi i weld a oedd angen cefnogaeth arnaf - defnyddiol iawn, os oedd y sefyllfa'n wahanol ac roeddwn am fynd ag ef ymhellach, rwy'n gwybod y gallwn fod wedi."

Dioddefwr achos o gasineb homoffobig

Er bod niferoedd troseddau casineb wedi codi'n gyffredinol, rydym wedi gweld cwymp mewn lefelau adrodd am achosion sy'n gysylltiedig â hil ac anableddau, gydag anableddau'n faes y gwyddwn eisoes ei fod yn cael ei danadrodd yn sylweddol eisoes. Er mwyn darparu'r un lefel o gefnogaeth i ddioddefwyr pob math o achos o gasineb ac annog hyder cynyddol i adrodd, rydym wedi darparu 2 ddiwrnod o hyfforddiant ar gyfer ein Swyddogion Cyswllt LHDT er mwyn iddynt ymgymryd â rôl Swyddogion Cefnogi Troseddau Casineb (HCSO). Bydd HCSO yn bwynt cyswllt sengl ar gyfer dioddefwyr, yn darparu cyngor ac arweiniad i'r swyddog ymchwilio ac yn cyfeirio'r dioddefwr i wasanaethau cefnogi eraill. Mae HCSO yn cael eu treialu am 12 wythnos yng Nghasnewydd a bydd eu llwyddiant yn cael ei werthuso, wedi hynny disgwylir iddynt gael eu cyflwyno ar draws Heddlu Gwent.

Amcan 3: Atal Eithafiaeth Dreisgar

Gweithio gyda phob cymuned i isafu unrhyw effaith negyddol y gallai gweithrediadau gwrthderfysgaeth ei chael arnynt, a gwella hyder mewn cymunedau i adrodd am ddigwyddiadau sy'n peri pryder. (Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Mae'r Amcan wedi aros heb ei newid, ond rydym wedi diwygio ein cynllun gweithredu ychydig i adlewyrchu gwaith yr oedd modd i ni ei gwblhau, a meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt o hyd.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Cytunwyd ar, ac ymrwymwyd i, gynllun cyflwyno gan 12 o bartneriaid
- Mae dros 1000 o Staff yr Heddlu a Phartneriaethau wedi derbyn mewnbwn ymwybyddiaeth dros y 12 mis diwethaf
- Mae staff ar draws asiantaethau Statudol a Gwirfoddol wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth.
- Datblygu a Chwblhau pecyn NCALT i gynyddu ymwybyddiaeth gyda holl Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cefnogaeth Gymunedol
- Datblygu Grwpiau PREVENT ar gyfer Addysg Uwch a Bellach ar draws De Cymru
- Negeseuon cadarnhaol am PREVENT mewn cymunedau lleol

Cynllun Cyflwyno

Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu'r Bartneriaeth PREVENT gan y grŵp G7, sy'n cynnwys Prif Weithredwyr o bob un Awdurdod Lleol a'r Brif Gwnstabl, ar 23 Ionawr. Mae'r Strategaeth PREVENT Genedlaethol wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae Asesiad lleol o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau'n ddiweddar ac fe gaiff ei adolygu gan y Grŵp Rheoli ar 16 Gorffennaf.

Ymgysylltu â'r Gymuned Asiaidd Ifanc a Menywod Asiaidd

Mae mecanweithiau'n cael eu sefydlu i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r cymunedau hyn o gwmpas y blaenoriaethau lleol a adnabuwyd ar eu cyfer. Ymgysylltwyd â Chymunedau BME ifanc a Menywod BME yn Maindee mewn perthynas ag anffurfio organau rhywiol menywod a Thrais Domestig yn y cam hwn. Mae chwe Swyddog Cefnogi Cymunedol yn y broses o wneud hyfforddiant PREVENT a fydd yn canolbwyntio ar gyfleoedd ymgysylltu â'r grwpiau hyn, gyda'r cam terfynol yn cael ei gwblhau ym mis Awst 2014.

Ymwybyddiaeth

Mae cynllun ymgysylltu cymunedol cytunedig wedi cael ei ddatblygu o fewn y Cynllun Gweithredu newydd. Bydd llawer o hyn yn digwydd yn y flwyddyn nesaf gan ein bod wedi canolbwyntio hyd yma ar gynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff yn y mudiad ac mewn asiantaethau, yn enwedig y rhai sy'n cael cyswllt wyneb wrth wyneb gyda'r cyhoedd o ddydd i ddydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i bryderon cymunedau gael eu cydnabod ac i gamau gael eu cymryd mewn ffordd amserol.

Mae swyddogion arweiniol wedi'u hadnabod yn datblygu cysylltiadau â Chynghorau Cydraddoldeb, Cymunedau'n Gyntaf a rhwydweithiau Gwirfoddol Cymunedol. Rydym yn gweithio mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol i ddarparu ymwybyddiaeth i glystyrau Cymunedau'n Gyntaf, gyda chyflwyniadau wedi'u trefnu ym Mlaenau Gwent a Thorfaen.

Mae dros 1000 o Staff yr Heddlu a Phartneriaethau wedi derbyn mewnbwn ymwybyddiaeth dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys staff ar draws asiantaethau Statudol a Gwirfoddol sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae'r ymateb i'r ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth hon wedi bod yn aruthrol o gadarnhaol.

Mae pecyn NCALT i gynyddu ymwybyddiaeth o PREVENT gyda Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cefnogaeth Gymunedol yng Ngwent wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Mae'r swyddog PREVENT arweiniol wedi gofyn i bob swyddog gwblhau'r hyfforddiant hwn.

Un o elfennau allweddol Prevent yw gweithio gyda sefydliadau bregus ac mae'r rhain wedi cynnwys Colegau a Phrifysgolion. Mae Grwpiau PREVENT ar gyfer Addysg Uwch a Bellach wedi'u datblygu ar draws De-ddwyrain Cymru ac maent yn cael eu defnyddio i gyfnewid gwybodaeth a ffurfio arfer gorau. Mae cynyddu ymwybyddiaeth yn ddiweddar gydag un o'r colegau wedi darparu adborth cadarnhaol.

“Roedd yr hyfforddiant yn berthnasol o ystyried y problemau yng Nghaerdydd yn ddiweddar ac fe amlinellodd grwpiau eithafol amrywiol a'u gweithgareddau; na fyddwn wedi cysylltu rhai ohonynt gyda therfysgaeth/eithafiaeth, megis y rhai sy'n gwrthwynebu hela. Codwyd rhai enghreifftiau hefyd er mwyn i ni ystyried sbardunau a phenderfynu pa sefyllfaoedd y byddai angen eu cyfeirio a pha rai na fyddent. Yn gyffredinol, sesiwn gyflwyno dda os nad oes gennych lawer o wybodaeth am y pwnc.”
Mynychai hyfforddiant

Amcan 4: Y Ddalfa

Adnabod anghenion penodol pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn y ddalfa'n briodol ac yn hyblyg.

Mae'r Amcan hwn wedi aros heb ei newid, ond rydym wedi estyn yr amserlenni i wneud gwaith pellach ar wella hygyrchedd o fewn ein hunedau Dalfa.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Gwella'r gallu i fonitro Nodweddion Gwarchodedig pobl sy'n dod trwy'r Ddalfa
- Pecyn hygyrch yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr holl Unedau Dalfa
- Mae ymweliadau ar gyfer grwpiau cymunedol yn mynd rhagddo un Uned Ddalfa Canol Casnewydd

Monitro a Recordio

Gyda chyflwyniad system rheoli cofnodion newydd o'r enw NICHE, mae gan system Ddalfa Gwent y gallu erbyn hyn i gofnodi'r nodweddion canlynol:

- Ethnigrwydd
- Oedran
- Rhyw
- Peth gwybodaeth am hunaniaeth rhyw
- Detholiad o anableddau

Bydd gwaith pellach i fireinio a datblygu'r opsiynau cofnodi hyn, pan fo'n briodol, yn parhau'n gam gweithredu o fewn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Anghenion Penodol

Fel rhan o'n gwaith i sicrhau yr ymatebir i anghenion penodol o fewn ein Hunedau Dalfa, gwahoddwyd grŵp cefnogi lleol ar gyfer pobl â Chyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth i ddod i ymweld â'n Huned Ddalfa yng Ngorsaf Heddlu Canol Casnewydd. Roedd tua 12 o bobl ifanc a rhai rhieni'n gallu mynd ar daith o gwmpas y celloedd, trafod y broses a ddilynir pan ddeuir â rhywun i'r ddalfa a thrafod pam y gallai rhywun bennu i fyny mewn Uned Ddalfa. Rhoddodd rhai o'r bobl ifanc adborth penodol i ni ar y math o wybodaeth yr hoffent ei derbyn petaent yn dod i mewn i'r Uned Ddalfa a sut y gellid cyflwyno hyn mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn briodol.

Mae eu hadborth yn cyfrannu at ddatblygiad ein Canllaw Darllen Hwylus i'r Ddalfa sydd ar fin cael ei argraffu. Mae'r canllaw wedi'i ddylunio ar gyfer unrhyw un a fyddai'n elwa o fod â gwybodaeth wedi'i chyflwyno mewn iaith syml a chlir a bydd ar gael yn fuan yn ein holl Unedau Dalfa. Bydd y Canllaw Darllen Hwylus yn ffurfio rhan o Becyn Hygyrchedd mwy a fydd yn cynnwys cyngor ar gyfer Swyddogion Dalfa mewn perthynas â chyfathrebu'n effeithiol â phobl anabl, darparu sicrhad, ac adnabod pan fydd gan rywun anabledd.

Cynllunnir ymweliadau pellach ar gyfer pobl y gallai fod ganddynt bryderon penodol am ddod i amgylchedd y ddalfa, er enghraifft pobl drawsryw, pobl â salwch meddwl a cheiswyr lloches/ ffoaduriaid. Mae staff y ddalfa'n cael eu diweddaru hefyd ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfoes - mae arweiniad gan y Gymdeithas Heddlu Moslemaidd ar sicrhau lles Moslemiaid yn y ddalfa yn ystod Ramadan wedi cael ei gylchredeg yn ddiweddar; yn yr un modd mae cyngor ar gael ar drin a chwilio pobl drawsryw yn y Ddalfa, gan gynnwys cyfeirio at linell gymorth 24 awr y Gymdeithas Heddlu Trawsryw Genedlaethol.

“Llawer o ddiolch i Heddlu Gwent am fynd â ni o gwmpas ardal y ddalfa. Rwy'n credu ein bod ni wedi dysgu llawer oddi wrth ein gilydd.”
Un o'n hymwelwyr o Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru

Amcan 5: Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Cynyddu ffydd a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn ein gwasanaethau plismona a hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr heddlu, Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau sefydlog.

Mae'r amcan hwn wedi aros heb ei newid, ond rydym wedi cwblhau ein cam

gweithredu o ddatblygu Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr i gefnogi gwaith yn y maes hwn. Nod cyffredinol y Strategaeth yw **“darparu gwasanaeth i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr sy'n gynhwysol, yn cydnabod anghenion penodol ac yn cefnogi gwelliannau mewn cysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau.”**

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Penodi Eiriolwr Amrywiaeth Sipsiwn a Theithwyr
- Datblygu Cynllun Gweithredu Sipsiwn / Teithwyr penodol
- Adnabod arfer da a Phwyntiau Cyswllt Sengl ym mhob Uned Plismona Lleol

Arweinyddiaeth

Mae Prif Arolygydd a dirprwy Arolygydd wedi'u hadnabod fel Eiriolwyr Amrywiaeth ar gyfer materion Sipsiwn a Theithwyr dros Heddlu Gwent. Mae gan Gwent Uwch Eiriolwr Amrywiaeth ar gyfer pob Nodwedd Warchodedig, gan gynnwys Hil, ond teimlwyd bod natur gymhleth perthynas yr Heddlu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn golygu y byddai Eiriolwr penodedig yn fuddiol. Gallwch ddarllen mwy am rôl Eiriolwyr Amrywiaeth ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Ein Cynllun Gweithredu

Mae gan Gwent gynllun gweithredu penodol bellach sy'n anelu at adnabod dulliau allweddol i ni weithio tuag at ein Hamcan Cydraddoldeb Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- Adolygu Gweithdrefn Gwersyllfannau Anghyfreithlon Heddlu Gwent ac asesu p'un a oes angen darparu unrhyw arweiniad pellach i swyddogion.
- Datblygu a hyrwyddo arweiniad Heddlu Gwent ar arferion diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr
- Cynnal arolwg o lefelau ymgysylltu cyfredol â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr ar draws pob LPU, adnabod arfer gorau a'i rannu
- Adnabod personél allweddol a fyddai'n elwa o hyfforddiant wedi'i dargedu o gwmpas materion Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cefnogi ymgysylltu'n effeithiol
- Sicrhau y gall Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr hygyrchu gwybodaeth am faterion plismona a allai effeithio arnynt - gan gynnwys troseddau casineb, cam-drin domestig a deddfwriaeth ysborion metel

Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol sy'n byw ar safleoedd parhaol, ac yn sefydlu pwyntiau cyswllt lleol (SPOC) ym mhob un o'n Hunedau Plismona Lleol i weithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a allai fod yn teithio trwy ardal Gwent, neu'n sefydlu gwersyllfannau anawdurdodedig. Cynllunnir digwyddiad hyfforddi ar gyfer ein SPOC ar gyfer mis Awst 2014, ac rydym eisoes wedi adnabod peth gwaith cadarnhaol y mae swyddogion wedi bod yn ei wneud yn lleol, gan gynnwys:

- Cymryd rhan mewn prosiect mentora ar gyfer myfyrwyr Sipsiwn a Theithwyr benywaidd sy'n mynd i Ysgol Gyfun West Mon
- Darparu Swyddog Cefnogaeth Gymunedol (CSO) penodedig ar gyfer y Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd parhaol yn Nhorfaen
- Ymweliadau rheolaidd gan CSO â'n safle ym Mlaenau Gwent ac ymgysylltu'n benodol â phobl ifanc

Amcan 6: Stopio a Chwilio

Sicrhau bod gweithgareddau stopio a chwilio'n cael eu cyflawni mewn ffordd gyfreithlon, gymesur, anwahaniaethol ac sy'n datblygu cysylltiadau cadarnhaol o fewn a rhwng cymunedau a'r heddlu.

Mae'r amcan hwn wedi aros heb ei newid, ond rydym wedi datblygu cynllun

gweithredu newydd sy'n adlewyrchu gweithgareddau a gwblhawyd eisoes a meysydd lle mae gwaith i'w wneud o hyd. Mae Heddlu Gwent wedi'i graffu nifer o weithiau dros y 3 blynedd ddiwethaf mewn perthynas â'n gweithgareddau stopio a chwilio, ac yn benodol y nifer o bobl ddu ac Asiaidd rydym yn eu stopio a'u chwilio.

Hyd yma, mae arolygiadau a gyflawnwyd gan y Swyddfa Gartref a chan y Coleg Plismona wedi nodi bod ein gweithgareddau stopio a chwilio wedi'u cyfiawnhau. Er hynny, mae bylchau y mae angen i ni ymdrin â nhw (fel y rhan fwyaf o Heddluoedd yn genedlaethol), yn enwedig o gwmpas ein cysylltiadau â chymunedau lleol ar stopio a chwilio, y ffordd yr ydym yn cofnodi ac yn dadansoddi gwybodaeth am ein gweithgareddau stopio a chwilio, a sut rydym yn mesur eu heffeithiolrwydd. Mae ein cynllun gweithredu newydd yn amlinellu sut y byddwn yn gwneud hyn.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Penodi Arweinydd tactegol ar gyfer Stopio a Chwilio
- Datblygu Cynllun Gwella Stopiadau newydd
- Ymrwymo i Gynllun Defnydd Gorau Stopio a Chwilio'r Coleg Plismona
- Creu Bwrdd Stopiadau Heddlu Gwent

Arweinyddiaeth

Mae Prif Arolygydd wedi'i benodi fel Arweinydd Stopio a Chwilio Tactegol ar gyfer Heddlu Gwent. Fel portffolio mae Stopio a Chwilio bellach yn eiddo i'n Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mae gan Heddlu Gwent Bolisi cadarn mewn perthynas â Stopio a Chwilio sy'n amlinellu'n glir cyfrifoldebau lleol, arolygu a'r heddlu wrth fonitro mesur effaith gweithgareddau stopio a chwilio, y mae'r holl swyddogion wedi cael eu hatgoffa amdanynt fel rhan o negeseuon ar draws Heddlu Gwent gan ein Harweinydd, y Prif Arolygydd.

Bydd Gwent yn mynychu'r Bwrdd Cysylltiadau'r Cyhoedd â'r Heddlu (Police Public Encounters Board - PPEB) cenedlaethol. Mae'r PPEB yn bodoli i ddarparu fforwm cenedlaethol lle gall yr holl faterion mewn perthynas â chysylltiadau rhwng y gwasanaeth heddlu ac aelodau'r cyhoedd gael eu hystyried a'u cyd-drafod. Mae'n darparu cyfle ar gyfer adnabod a hyrwyddo arfer gorau hefyd.

Ein cynllun newydd

Mae ein Cynllun Gwella Stopio a Chwilio newydd yn adnabod y blaenoriaethau a ganlyn:

- Maes Cyflwyno 1: Arweinyddiaeth

Darparu arweinyddiaeth gref a gweladwy sy'n codi ac yn cynnal proffil stopio a chwilio o fewn Heddlu Gwent ac yn cyflwyno negeseuon cyson o gwmpas disgwyliadau corfforaethol

- Maes Cyflwyno 2: Ansawdd a Dadansoddiad Data

Gwella ansawdd data, gan ei wneud yn addas i'r diben ac yn ddigon cadarn i gyfeirio penderfyniadau rheolwyr a Heddlu Gwent

- Maes Cyflwyno 3: Craffu

Rhoi systemau ar waith sy'n caniatáu craffu mewnol ac allanol parhaus o ansawdd achosion o stopio a chwilio

- Maes Cyflwyno 4: Cysylltiadau Cymunedol

Sicrhau bod gan gymunedau lleol fynediad i wybodaeth berthnasol o gwmpas gweithgareddau stopio a chwilio ac nad yw defnydd Heddlu Gwent o'r pŵer yn effeithio'n negyddol ar hyder y cyhoedd

Ein Bwrdd Stopiadau

I sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol wedi sefydlu Bwrdd Stopiadau Heddlu Gwent a fydd yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro ac asesu cynnydd. Yn ogystal â chynrychiolwyr ffrydiau gwaith gwahanol ar draws Heddlu Gwent, bydd aelodau o'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol, aelodau GEMA (Cymdeithas Heddweision Duon Heddlu Gwent yn flaenorol) a chynrychiolaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Y Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio

Yn ddiweddar cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd y Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona'n lansio cynllun "Defnydd Gorau Stopio a Chwilio" newydd y caiff pob heddlu yng Nghymru a Lloegr eu gwahodd i ymrwymo iddo. Mae Prif Gwnstabl Heddlu Gwent wedi ymrwymo i'r cynllun, a gaiff ei lansio yn haf 2014, yn ddiweddar.

Mae'n rhaid i heddluoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun:

- Gofnodi canlyniadau stopiadau'n fanylach i ddangos y cyswllt, neu ddiffyg cyswllt, rhwng amcan y chwiliad a'i ganlyniad, gan ganiatáu asesiad o ba mor dda y mae heddluoedd yn dehongli "sail resymol dros amheuaeth"
- Caniatáu i aelodau'r cyhoedd fynd gyda swyddogion ar batrôl
- Cyflwyno "sbardun cymunedol" ar gyfer cwynion stopio a chwilio fel bod heddluoedd yn gorfod esbonio i'r cyhoedd sut mae pwerau'n cael eu defnyddio os byddant yn derbyn nifer mawr o gwynion
- Diwygio eu defnydd eu hunain o'r pŵer stopio a chwilio Adran 60

Amcan 7: Mynediad ac Ymgysylltu

Lleihau'r rhwystrau wedi'u hadnabod y mae pobl yn eu hwynebu wrth hygyrchu gwasanaethau heddlu trwy fwyafu cyfleoedd ymgysylltu â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Rydym wedi adolygu'r amcan hwn a'r camau gweithredu a ddaeth oddi tano ac wedi penderfynu ei ddileu o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae llawer o'n Hamcanion eraill yn ymdrin â themâu tebyg a chan fod ein hymgysylltiad â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig bellach yn cael ei fonitro trwy ein Strategaeth Ymgysylltu a'n Fforwm Ymgysylltu, roedd cael Amcan Cydraddoldeb mewn perthynas â'r un gweithgaredd y dyblygu gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo. Mae camau gweithredu penodol o gwmpas dileu rhwystrau a gwella mynediad ar gyfer pobl anabl wedi'u hymgorffori o fewn ein Hamcan Anableddau.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Cyflwyno Panel Rheoli Ymgysylltu, yn monitro ymgysylltu â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig yn lleol
- Mae Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol bellach yn cefnogi Timau Cymdogaeth lleol wrth wella'u hymagwedd at ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol
- Enghreifftiau o ymgysylltu cadarnhaol rhwng y cenedlaethau ar draws Heddlu Gwent
- Sefydlwyd Fforwm Anableddau cyntaf Heddlu Gwent

Monitro Ymgysylltu â Phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu, mae Heddlu Gwent wedi cyflwyno Panel Rheoli Ymgysylltu; system sy'n graddio ansawdd ymgysylltu â chymunedau amrywiol fel Coch, Melyn neu Wyrdd, gan ddibynnu ar ansawdd ac amlder yr ymgysylltiad hwnnw. Mae'r Panel Rheoli wedi'i drefnu fesul Nodwedd

Warchodedig ac yn cael ei ddiweddaru gan bob Tîm Cymdogaeth ar sail chwarterol.

Cefnogaeth gan ein Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Mae gan Heddlu Gwent Grŵp Ymgynghorol Annibynnol (IAG) wedi'i gyfansoddi o aelodau'r gymuned ar draws ardal Heddlu Gwent sy'n dod â'u cefndiroedd a phrofiadol amrywiol eu hunain gyda nhw i ddarparu cyngor annibynnol i Heddlu Gwent mewn perthynas ag unrhyw weithgareddau sydd â'r potensial i effeithio ar ein cymunedau lleol. Fel rhan o gynllun datblygu'r IAG ar gyfer y flwyddyn hon, rydym wedi alinio aelodau gydag un neu fwy o'r Timau Plismona Cymdogaethau a gofyn iddynt asesu pa mor dda yr ydym yn gwneud o ran ymgysylltu â'n cymunedau, yn benodol y rhai lleiafrifol neu anodd eu cyrraedd. Bydd aelodau'n ymweld â'u Timau bob tri mis ac yn bwydo'n ôl i ni ar ba gynnydd rydym yn ei wneud, p'un a oes unrhyw arfer da y gallwn ei efelychu, a byddwn yn cefnogi ein swyddogion lleol trwy eu cysylltu â grwpiau cymunedol newydd a chynnig cyngor ar ymgysylltu'n briodol.

Enghreifftiau Da

Fel rhan o ymagwedd Heddlu Gwent at ymgysylltu, rydym wedi bod yn rhannu arfer da trwy safle mewnrwyd Ymgysylltu penodedig. Erbyn hyn mae'r wefan yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol o waith rhwng y cenedlaethau a adnabuwyd fel blaenoriaeth ar gyfer pobl ifanc a hŷn yn ystod ein hymgynghoriad ar Amcanion Cydraddoldeb:

Mae disgyblion Blwyddyn 11 sy'n ymwneud â'r cynllun disgyblion yn Ysgol Gyfun Y Coed Duon wedi bod yn gweithio ar brosiect i ddileu rhwystrau rhwng pobl hŷn a phobl ifanc. Gyda chefnogaeth gan y Tîm Cymdogaethau gwnaethant ysgrifennu, cynhyrchu ac ymddangos mewn ffilm ymwelwyr twyllodrus y maent bellach wedi'i dangos i grwpiau Cymunedol lleol.

Ynghyd â phartneriaid o ganolfan adnoddau Graig y Rhaca ac Ysgol Uwchradd Bedwas, cynhaliodd Tîm Cymdogaethau Bedwas ddigwyddiad caws a throsedd yn Neuadd y Gweithwyr Bedwas. Anelwyd y digwyddiad hwn at bobl leol dros 50 oed gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau ar y garreg ddrws, twyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y disgyblion a gymerodd ran i gyd rhwng 11 a 15 oed. Darparwyd yr arlwyo ar gyfer y digwyddiad gan fenter gymdeithasol leol a gweinwyd y bobl a ddaeth i'r digwyddiad gan ddisgyblion yr ysgol. Ynghyd ag asiantaethau eraill roedd 87 o drigolion lleol yn bresennol.

“Roedd y digwyddiadau'n ddifyr ac yn fuddiol iawn. Derbyniais lawer o gyngor a gwybodaeth gan yr asiantaethau gwahanol a ddaeth i'r digwyddiad a meddyliais fod y syniad o ddefnyddio'r plant ysgol yn ardderchog. Darparodd cyfle i'r trigolion lleol siarad a gweithio gyda nhw, sydd wedi'n helpu ni i deimlo'n llai ofnus o weld grwpiau o blant lleol o gwmpas yr ardal, gan ein bod yn adnabod rhai ohonynt o ganlyniad i ddod i'r digwyddiadau hyn.”
Preswylydd Lleol

Mynediad ar gyfer Pobl Anabl

Eleni mae Heddlu Gwent wedi sefydlu Fforwm Anableddau, a fynychir gan bobl anabl, cynrychiolwyr mudiadau pobl anabl ac aelodau allweddol o bersonél Heddlu Gwent. Er ei fod yn ei ddyddiau cynnar, mae'r Fforwm wedi cwrdd dwywaith a thrafod materion gan gynnwys troseddau casineb mewn perthynas ag anableddau, rhwystrau i adrodd am achosion i'r Heddlu, materion cymdogaethau lleol a sut gall yr Heddlu godi hyder pobl anabl.

Yn ogystal â'n Fforwm Anableddau, rydym hefyd yn parhau i ddatblygu ffyrdd eraill o ddarparu mynediad gwella i wasanaethau plismona ar gyfer pobl anabl. Mae tri aelod o'n personél yn cwblhau eu Cymhwyster Iaith Arwyddion Prydeinig Lefel 3 ar hyn o bryd, ac rydym wrthi'n ail-lansio ein gwasanaeth SMS fel system gyfwerth ag 101 ar gyfer unrhyw un sydd ag anhawster cyfathrebu, gan olygu y gallant ddefnyddio negeseuon testun i adrodd am drosedd neu wneud ymholiad cyffredinol yn hytrach na siarad ar y ffôn. Dros y 12 mis nesaf bydd Heddlu Gwent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag Awtistiaeth Cymru i ail-lansio ac ehangu'r Cynllun Cerdyn Sylw Awtistiaeth ar draws holl Wasanaethau Brys Cymru.

Adran B: Amcanion Cydraddoldeb Mewnol

Mae adolygiad diweddar o'n hamcanion cydraddoldeb mewnol wedi arwain at ddatblygu amcan cydraddoldeb strategol sengl sy'n ymgorffori'r holl gamau gweithredu dros ben o'n cynllun blaenorol.

Mae ein Hamcan diwygiedig, 'Cyflogwr o Ddewis', y gellir dod o hyd iddo yn y Cynllun Gweithredu ar ddiwedd y ddogfen hon, yn amlinellu ein nod o adeiladu amgylchedd gweithio cynhwysol a chefnogol sy'n anelu at ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon.

Amcan 8: Recriwtio, Dewis, Cynnydd a Chadw

Adeiladu amgylchedd gweithio cynhwysol a chefnogol sy'n annog ac yn cefnogi datblygiad a chynnydd yr holl staff. Byddwn yn annog mentrau blaengar i recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw personél o grwpiau amrywiol.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Recriwtio 10 swyddog heddlu benywaidd a 2 swyddog heddlu BME fel rhan o garfan o 24 myfyriwr heddlu ym mis Awst 2013
- Mynychwyd y Rhaglen Springboard gan 8 pellach o staff yr heddlu a 5 swyddog yr heddlu yn 2013.
- Datblygu Strategaeth Recriwtio, Dewis, Datblygu a Chadw BME

Tangynrychiolaeth a Recriwtio

Mae Heddlu Gwent yn cydnabod bod yna feysydd o dangynrychiolaeth o fewn Heddlu Gwent ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae 15.6 o staff BME Cyfwerth ag Amser Llawn (CaALl) yn gweithio i Heddlu Gwent, gan gynrychioli 1.84% o staff sefydledig yr heddlu. Mae 10 (CaALl) Swyddogion Cefnogaeth Gymunedol BME yn gweithio i Heddlu Gwent, gan gynrychioli 4.84% ychwanegol o staff sefydledig yr heddlu.

Mae 12.87 (FTE) o swyddogion heddlu BME o fewn Heddlu Gwent. Mae'r niferoedd swyddogion hyn yn nodi ein bod yn ddiffygiol o ran adlewyrchu poblogaeth BME Gwent sy'n 3.9%, gan godi i tua 6% yng Nghasnewydd. Mae Swyddogion Heddlu Benywaidd yn cynrychioli 30.46% o gyfanswm sefydliad y swyddogion heddlu.

Mae'r heriau hyn yn cynyddu oherwydd y ffaith bod recriwtio mewnol ac allanol wedi bod yn gyfyngedig eleni. Recriwtiodd Heddlu Gwent 24 swyddog heddlu newydd trwy ymgyrch recriwtio fewnol, a fu'n cynnwys staff yr heddlu, swyddogion cefnogaeth gymunedol, cwnstabliaid arbennig a chadetiaid. Er y buom yn llwyddiannus gan fod 10 swyddog benywaidd a 2 BME yn rhan o'r garfan o swyddogion heddlu newydd, mae cyfyngiadau ar recriwtio allanol wedi atal Heddlu Gwent rhag dylanwadu ymhellach ar nifer y swyddogion heddlu benywaidd a BME.

Datblygiad BME

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynllun gweithredu Recriwtio, Hyrwyddo a Chadw BME mewn ymgynghoriad â GEMA (Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Heddlu Gwent), Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu a'r Eiriolwr Amrywiaeth ar gyfer y maes hwn. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar greu cysylltiadau gwell gyda chymunedau BME er mwyn paratoi ar gyfer gweithgarwch recriwtio yn y dyfodol, deall ac ymdrin ag unrhyw rwystrau sy'n wynebu personél BME o fewn y mudiad ac ymgysylltu â chymunedau BME mewn cyfleoedd y tu hwnt i recriwtio swyddogion - er enghraifft Cwnstabliaid Arbennig, Cadetiaid a Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu.

Datblygiad Menywod

Mae swyddogion benywaidd wedi'u tangynrychioli o fewn yr Uned Arfau Tân ar y Cyd. Rhedodd

Heddlu De Cymru Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Gweithredu Arfau Tân Cadarnhaol ac anogodd unrhyw Swyddogion Heddlu benywaidd a allai fod â diddordeb mewn gweithio o fewn yr Uned Arfau Tân ar y Cyd i fynd iddo. Anelodd y digwyddiad at gynyddu dealltwriaeth y swyddogion hyn o'r rôl a'r cyfleoedd sydd ar gael o fewn yr Uned.

Roedd gan swyddogion y cyfle i wneud y prawf ffitrwydd, a ddarparodd arwydd o statws cyfredol eu lefelau ffitrwydd. Ar ôl hynny, cafwyd cyflwyniad ar yr Uned Arfau Tân, a oedd yn cynnwys manylion am ar arbenigeddau sydd ar gael. Cafwyd cyfle hefyd i holi'r timau arfau tân presennol a swyddogion benywaidd sy'n gwasanaethu ar y tîm arfau tân.

Mynychwyd Springboard, rhaglen datblygiad personol a ddyluniwyd i helpu menywod i adnabod eu cyrchnodau ac yna dod o hyd i'r sgiliau a'r hyder yr oedd eu hangen i'w cyflawni, gan 8 o swyddogion a 5 o staff yr heddlu eleni.

Adnabod Meysydd Eraill o Dangynrychiolaeth

Cyflawnwyd gwaith i adnabod meysydd eraill o dangynrychiolaeth o fewn Heddlu Gwent. Yn benodol, bydd ardal hunanwasanaeth ar ein system rheoli pobl, i-Trent, yn mynd yn fyw o fewn y flwyddyn ariannol nesaf ac yn gwella maint y data monitro sy'n cael ei gasglu, gan y bydd modd i unigolion fewnbynnu eu gwybodaeth eu hunain, gan gynnwys Nodweddion Gwarchodedig nad ydym yn eu monitro ar hyn o bryd, fel tueddfryd rhywiol, yn uniongyrchol.

Amcan 9: Dysgu, Hyfforddiant a Datblygiad

Hyfforddi a datblygu ein gweithlu i gydnabod gwerth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn plismona.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Cyflwyno hyfforddiant Swyddog Cefnogi Troseddau Casineb i 12 o swyddogion a 6 o staff
- Canllaw Hyfforddi a Mentora wedi'i gyhoeddi gyda chefnogaeth benodol ar gyfer pobl o grwpiau wedi'u tangynrychioli
- Hyfforddiant ar hyfforddi ar gyfer swyddogion BME
- Rhoddwyd hyfforddiant i Adnoddau Dynol, Unedau Plismona Lleol a Hyrwyddwyr o'r ffrwd waith ar Rywedd i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o ddiweddariadau a datblygiadau
- Cyflwynodd Stonewall Cymru hyfforddiant Rheoli Gweithlu Amrywiol i 39 o staff a 64 o swyddogion yr heddlu
- Cyflwynwyd hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i 13 o swyddogion a 16 o staff yr heddlu
- Daeth 4 uwch swyddog heddlu i'r modiwl Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol ar Waith o fewn y Rhaglen Arweinyddiaeth Uwch.

Swyddogion Cefnogi Troseddau Casineb

I gefnogi gwaith ein Swyddogion Cefnogi Troseddau Casineb, datblygwyd cwrs 2 ddiwrnod a ganolbwyntiodd ar ddeall effaith troseddau ac achosion o gasineb, deall a chefnogi dioddefwyr, cyfeirio'n effeithiol a chofnodi a chydnabod troseddau casineb. Darparwyd mewnbwn gan asiantaethau partner gan gynnwys Race Equality First, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru, Anabledd Cymru a Chefnogi Dioddefwyr. Bu'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys bore o ryngweithio â phobl a oedd wedi profi mathau gwahanol o droseddau casineb, gan gynnwys troseddau casineb yn erbyn Moslemiaid, pobl drawsryw a phobl anabl.

Hyfforddiant a Mentora

Yn dilyn llwyddiant Seminar Datblygu'r Heddlu, codwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas â hyfforddiant a mentora o fewn Heddlu Gwent. O ganlyniad i hyn, mae arweiniad hyfforddi a mentora

wedi'i gyhoeddi i gynyddu dealltwriaeth o sut y gall staff hygyrchu hyfforddwr neu fentor i'w cefnogi. Mae'r rhestr o hyfforddwyr a mentoriaid, gan gynnwys y rhai sydd â diddordeb neu fewnwelediad penodol o ran cefnogi'r rhai o grwpiau a dangynrychiolir o fewn Heddlu Gwent ynghyd â 2 swyddog BME sydd wedi gwneud hyfforddiant ar sut i hyfforddi, wedi'i chyhoeddi.

Rheoli Gweithlu Amrywiol – Stonewall Cymru

Anelwyd y mewnbwn hwn at Arolygwyr ac yn uwch a rheolwyr staff yr heddlu sydd â chyfrifoldebau goruchwylio. Ymdriniodd y cwrs â deddfwriaeth o gwmpas cydraddoldeb, awgrymiadau ar sut i ddelio â bwlio, a chanolbwyntiodd ar astudiaeth achos o unigolyn a wynebodd yr her o ddod allan yn y gweithle.

“Rwyf am i Heddlu Gwent fod yn gyflogwr o ddewis ac rwyf wrth fy modd bod Stonewall wedi cytuno i ddod i gyflwyno'r hyfforddiant hwn ar ein cyfer ni, oherwydd yr arbenigedd sydd ganddynt. Rwy'n ymrwymedig i degwch a chydraddoldeb ac mae'n gwbl hanfodol y gall pobl ddod i'r gwaith a theimlo y gallant wneud gwahaniaeth. Rwy'n annog pobl i achub ar y cyfle hwn a byddwn yn monitro cyfraddau presenoldeb i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y dysgu hwn.”
Prif Gwnstabl, Jeff Farrar

“I mi roedd hwn yn gwrs a ysgogodd y meddwl y gwnes i fwynhau'n fawr. Parodd i mi fyfyrio ar yr anawsterau y gall pobl eu hwynebu yn y gweithle pan fydd y cyfan y maent eisiau ei wneud yw gwneud gwahaniaeth a chael eu gwerthfawrogi dim ond am fod y person y maent.”
Prif Arolygydd Simon Jeffries, Eiriolwr Heddlu Gwent, LHDT

Nododd adborth pellach gan y rhai a aeth i'r hyfforddiant mai'r 2 agwedd fwyaf gwerthfawr ar yr hyfforddiant oedd caffael gwell dealltwriaeth o Ddeddfwriaeth Gydraddoldeb a gwell ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu pobl LHDT unigol o fewn y gweithle.

Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyflwynwyd Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i 29 o bobl sy'n gyfrifol am lunio polisi, adnoddau dynol neu benderfyniadau ar newidiadau busnes. Nod yr hyfforddiant oedd cynyddu dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y mathau o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon, yr angen busnes am Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a sut i'w cwblhau.
O'r rhai a aeth i'r hyfforddiant credodd dros 76% ei fod yn berthnasol i'w rôl a theimlodd 80% y byddent yn cymhwyso eu dysgu yn y gweithle. Roedd rhai o elfennau mwyaf gwerthfawr yr hyfforddiant a nodwyd gan fynycheion oedd 'dysgu am nodweddion gwarchodedig', defnyddio AEC yn rhagweithiol' ac 'adnabod mathau gwahanol o wahaniaethu'.

Cam-drin Domestig a Phlant, Stelcio ac Aflonyddu

Mae pecyn eDdysgu cynhwysfawr wedi'i gyflwyno i gynyddu dealltwriaeth o gam-drin domestig, cam-drin plant a stelcio / aflonyddu. Trwy ddysgu seiliedig ar sefyllfaoedd, mae'r cwrs yn ymdrin â diffiniadau a rhai arwyddion cyffredin ar gyfer y meysydd craidd ac mae hefyd yn bwrw golwg ar sut i adnabod a rheoli achosion o gam-drin domestig, cam-drin plant a stelcio ac aflonyddu.

Amcan 10: Anableddau

Cynyddu ffydd a hyder pobl anabl yn y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a chadw aelodau staff anabl trwy eu galluogi i gymryd rhan a chyfrannu'n llawn trwy ymdrin â rhwystrau o fewn y gweithlu lle bo'n bosib.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Cyflwynwyd hyfforddiant Salwch Meddwl i 94 o swyddogion heddlu

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno (parhad)

- Cynhaliwyd Seminar Awtistiaeth i helpu staff cyswllt cyntaf yn y gwasanaeth heddlu i ddatblygu ymagwedd wedi'i theilwra i'r unigolyn wrth ymdrin â phobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth.
- Gweithdrefnau Rheoli Presenoldeb Diwygiedig i gefnogi staff na allant ddod i'r gwaith oherwydd salwch
- Lansiwyd Strategaeth Iechyd a Lles, Gweithdrefn Iechyd Meddwl yn y Gweithle a chynhaliwyd Dosbarth Meistr Lles o fewn Heddlu Gwent ym mis Mawrth 2014

Hyfforddiant Salwch Meddwl

Cyflwynwyd y mewnbwn hanner diwrnod hwn ar Salwch Meddwl i Sarsiantiaid yr Heddlu, gan gynnwys y rhai o'r ffrydiau gwaith Cymdogaethau a Chefnogaeth Weithredol, er mwyn datblygu gwybodaeth am salwch meddwl yn y cyd-destun gweithredol a gwella'u sgiliau i ddarparu cefnogaeth briodol ar gyfer pobl a allai fod ag ystod o anhwylderau meddwl.

Seminar Awtistiaeth

Roedd Seminar Awtistiaeth Heddlu Gwent yn rhan o'r Prosiect Awtistiaeth a'r Gwasanaethau Brys a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Anelwyd y seminar at gynyddu ymwybyddiaeth Swyddogion rheng flaen o Awtistiaeth a'i heffeithiau, ac roedd yn cynnwys nifer o gyflwyniadau gan siaradwyr gwadd y mae ganddynt ASA (Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth) eu hunain ynghyd â nifer o weithdai sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu'n effeithiol, addasu i amgylcheddau a chyswllt â'r heddlu. Yn cyfrannu at y diwrnod hefyd oedd yr elusennau Autism Initiatives a Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. Cyflwynodd yr ysgolion lleol Trinity Fields, sy'n ddarparwr addysg arbenigol ar gyfer plant ag awtistiaeth, ac Ysgol Cwm Rhymni, sesiwn ar y cyd ar y gwahaniaethau synhwyraidd y gall pobl ag awtistiaeth eu profi.

Mae DVD yn cael ei gynhyrchu hefyd a gaiff ei ddefnyddio fel offeryn hyfforddi i'w rannu gyda swyddogion ar draws Heddlu Gwent, heddluoedd ac asiantaethau eraill.

“Daeth seminar dydd Gwener â nifer o fudiadau ac unigolion ynghyd o bob cwr o Gymru i alluogi swyddogion heddlu a mudiadau partner i ddysgu am bobl sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth. Fel arweinydd Heddlu Gwent ar anableddau rwy'n awyddus i alluogi swyddogion a staff i wneud popeth y gallant i ddeall y cyflwr hwn a fydd yn caniatáu i ni ymgysylltu ag ystod hyd yn oed yn ehangach o bobl o fewn ein cymunedau. Yn bersonol rwyf wedi dysgu sut gymaint gan y seminar ac wedi cael fy ysbrydoli gan rai o'r unigolion sydd wedi rhoi o'u hamser eu hunain i'n helpu ni i ddeall yr hyn y maent yn delio ag ef bob dydd.”
Uwcharolygydd Marc Budden, Eiriolwr Amrywiaeth Heddlu Gwent, Anableddau

“Mae Heddlu Gwent wedi dangos parodrwydd rhyfeddol i ymdrin â'r angen am ymwybyddiaeth o awtistiaeth o fewn eu gwasanaeth a chyda'r cyflwr yn effeithio ar tuag 1 o bob 100 o bobl byddem yn gobeithio y bydd y sensitifrwydd cynyddol hwn yn arwain at ymgysylltu'n fwy hwylus â phobl ag awtistiaeth y byddant, o bosib, yn dod i gyswllt â'r heddlu.”
Hugh Morgan OBE, Prif Swyddog Gweithredol Awtistiaeth Cymru

Gweithdrefn Rheoli Presenoldeb

Bob blwyddyn collir tua 170 miliwn o ddiwrnodau gweithio ym Mhrydain fawr o ganlyniad i bobl fod yn rhy sâl i fynd i'r gwaith. Yn gyffredinol mae gan fudiadau â lefelau absenoldeb salwch is bolisïau rheoli absenoldeb da nad ydynt yn gweld absenoldeb salwch fel rhywbeth negyddol yn unig, ond yn hytrach yn cydnabod bod pawb yn mynd yn sâl weithiau a'i fod er budd y gweithiwr a'r cyflogwr bod y gweithiwr yn aros gartref i wella, gan ddychwelyd i'r gweithle pan fydd wedi gwella'n llawn.
Mae'r weithdrefn Rheoli Absenoldeb ddiwygiedig yn anelu at reoli salwch trwy greu ymdeimlad o

hyder. Mae'n anelu at sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi pan fyddant yn sâl a'u bod yn ymwybodol o'r ôl-effeithiau/problemau a achosir gan eu salwch, o'u cyfrifoldebau yn y broses hon a goblygiadau methu â chydymffurfio â'r gweithdrefnau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys adnabod goruchwylwyr benywaidd fel pwyntiau cyswllt i gefnogi menywod yn ystod cyfnodau o salwch.

Strategaeth Iechyd a Lles Heddlu Gwent

Lansiwyd Strategaeth Iechyd a Lles Heddlu Gwent ym mis Mawrth 2014 i gefnogi pobl i ddelio â straen yn effeithiol a chadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Derbyniodd uwch reolwyr, Cymdeithasau Staff, Unison a Rhwydweithiau Staff hyfforddiant arbenigol yn ystod bore am yr offer a'r technegau y gallant eu defnyddio i sicrhau lles yn y gweithle, gan gynnwys yr achos moesol, cyfreithiol ac ariannol dros wella iechyd meddwl yn y gweithle, sut i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer rhywun sy'n dioddef o straen neu broblemau iechyd meddwl yn y gwaith ac adeiladu gwydnwch yn y gweithlu.

"Ein nod yw sicrhau bod Heddlu Gwent yn gwneud pob ymdrech i helpu ei swyddogion a staff i fod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol a chydag ymdeimlad cadarnhaol o les."
Pennaeth Gwasanaethau Pobl Bob Parker

"Dyma oedd digwyddiad a gyflwynwyd yn rhagorol a roddodd swm enfawr o gyngor ymarferol."
Mynychai

I gydweddu â'r Strategaeth, rydym hefyd wedi cyhoeddi ein Gweithdrefn Iechyd Meddwl yn y Gweithle ac ymrwymo i'r Siarter Cyflogwr Gofalgar. Mae'r Siarter yn safon ar gyfer Cyflogwyr sy'n gadarnhaol mewn perthynas ag Iechyd Meddwl, gan gynnwys ymrwymo i osgoi gwahaniaethu mewn prosesau Recriwtio a Dethol a chefnogi staff sy'n profi problemau Iechyd Meddwl yn ystod eu cyflogaeth. Mae ein Gweithdrefn yn anelu at hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn y gweithle, estyn allan i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a straen a chydnabod pwysigrwydd hyrwyddo lles. Mae'n anelu at sicrhau bod Swyddogion a Staff â chyflwr iechyd meddwl yn cael eu cefnogi'n llawn yn y gweithle, lleihau'r ffactorau risg ar gyfer salwch meddwl, hyrwyddo cyflogaeth pobl sydd wedi profi problemau iechyd meddwl a'u cefnogi nhw pan fyddant yn y gwaith.

Gellir dod o hyd i waith ychwanegol mewn perthynas ag Anableddau o dan ein hamcan Mynediad ac Ymgysylltu.

Amcan 11: Darpariaethau ar gyfer Rhieni

Sicrhau bod gan swyddogion a staff fynediad i wybodaeth am ddarpariaethau a phrosesau'r gweithle gan gynnwys beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, a dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth. Sicrhau nad yw swyddogion a staff o dan anfantais gan iddynt gymryd cyfnod o absenoldeb mewn perthynas â dyletswyddau magu plant.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Following focus groups, revised maternity support and guidance has been developed to support both the individual and line managers
- Flexible working policy and procedures reviewed to more effectively consider individual requirements

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Sefydlwyd Gweithgor i adnabod materion cyfredol ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan feichiogrwydd a mamolaeth. Trwy holiadur ar reoli absenoldeb, adnabuwyd bod 59% o ymatebwyr benywaidd yn teimlo eu bod wedi derbyn ychydig iawn o gefnogaeth, neu ddim o gwbl, pan oeddent ar absenoldeb mamolaeth. O ganlyniad i hyn, sefydlwyd grwpiau ffocws i gael adborth gan fenywod yr oeddent wedi bod ar absenoldeb mamolaeth a chan reolwyr a oedd wedi goruchwylio menywod yn ystod absenoldeb beichiogrwydd a mamolaeth.

Defnyddiwyd yr adborth i wella gweithdrefnau a oedd eisoes yn bodoli, gyda'r nod o wella cyfathrebu a chefnogaeth yn ystod absenoldeb beichiogrwydd a mamolaeth. Datblygwyd Siart Llif Mamolaeth i amlinellu canllaw fesul cam ar gyfer yr unigolyn a'r rheolwr llinell. Mae'r siart llif yn ddogfen fyw y gellir ei hygyrchu ar y fewnrwyd ac a gaiff ei anfon at bob menyw feichiog a'u goruchwylwyr.

Bydd goruchwylwyr hefyd yn derbyn rhybudd ar dab 'rhybuddion/gweithredoedd' eu tudalen 'My Page' ar ein mewnrwyd, a fydd yn cynnwys dolen i'r siart llif, bydd hyn yn ymddangos ar ôl i AD gael eu hysbysu bod aelod o staff yn feichiog. Rydym wedi cyflwyno cyfarfodydd un i un ar gyfer yr holl fenywod beichiog gyda'u rheolwyr llinell ac Ymgynghorydd AD i sicrhau bod menywod yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad priodol. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod yr holl fenywod yn gwybod eu hawliau a'r hyn y gallant ei hawlio a'u bod yn derbyn cefnogaeth briodol yn ystod eu habsenoldeb mamolaeth.

Gweithio Hyblyg

Mae Heddlu Gwent yn ymrwymedig i hwyluso gweithio hyblyg a darparu ar gyfer gofynion unigolion pryd bynnag y bo'n bosib. Mae gweithio hyblyg a rhan-amser yn darparu cyfle i gyflawni cydbwysedd rhwng gofynion gwaith a bywyd cartref. Mae galluogi cydbwysedd bywyd gwaith yn arfer rheoli da gan y gall lleihau straen ac absenoldeb, cynyddu effeithiolrwydd a morâl, gwella ymroddiad a helpu i gadw staff medrus. Gall unigolion sy'n gweithio'n hyblyg fod yn hirhoedlog eu gwasanaeth, yn hynod o gynhyrchiol ac yn aelodau staff teyrngar. Pan roddir ystyriaeth i gais am weithio'n hyblyg, mae'n bwysig ystyried anghenion yr unigolyn yn erbyn gofynion gweithredol. Nid oes gan unigolion hawl absoliwt i weithio oriau penodol a/neu'r diwrnodau o'u dewis; mae'n rhaid i batrymau gweithio weddu i ofynion gweithredol Heddlu Gwent. I gefnogi'r broses hon mae ein polisïau a gweithdrefnau gweithio hyblyg wedi cael eu hadolygu er mwyn ystyried ceisiadau'n fwy effeithiol.

Amcan 12: Ymgorffori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy gydol ein Polisïau, Gweithdrefnau a Phrosesau

Datblygu ein diwylliant i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, gan gydnabod a pharchu gwerthoedd unigol a gwahaniaethau rhwng pobl.

Cyflawniadau Allweddol - yn gryno

- Sefydlwyd Eiriolwyr Amrywiaeth, yn gweithio gyda Rhwydweithiau Cefnogi Staff
- Cododd ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall eleni
- Arolwg Tueddfryd Rhywiol yn y Gweithle/Arolwg Staff
- Datblygwyd gwaith i adnabod diddordeb mewn Rhwydwaith Cefnogi Staff ar Grefydd a Chred
- Cyfathrebiadau staff rheolaidd o gwmpas materion amrywiaeth
- Adolygwyd a chyhoeddwyd Polisi a Gweithdrefn Cam-drin Domestig yn y Gweithle
- Mae materion rhywedd bellach wedi'u cynnwys mewn ystyriaethau cynlluniau ystadau
- Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb bellach wedi'u hymgorffori yn y broses o lunio polisïau

Eiriolwyr Amrywiaeth

Fel arweinydd cydraddoldeb ac amrywiaeth Heddlu Gwent, gofynnodd y Prif Gwnstabl Jeff Farrar am wirfoddolwyr gwirioneddol ymrwymedig o blith rheolwyr canol ac uwch i weithredu fel eiriolwyr ar gyfer pob un o'r Nodweddion Gwarchodedig. Mae Eiriolwr ychwanegol wedi'i benodi'n ddiweddar ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae Datganiad o Fwriad wedi'i ddatblygu ar gyfer ein Heiriolwyr sy'n amlinellu eu rolau'n ffurfiol. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys cydweithio'n agos â'u Rhwydwaith Cefnogi Staff perthnasol, darparu pwynt cyswllt uwch i unrhyw bersonél gysylltu â nhw mewn perthynas â'u maes arbenigedd, hyrwyddo eu Nodwedd Warchodedig a chynorthwyo cyflwyniad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae gan bob Eiriolwr Amrywiaeth ei Gynllun Gweithredu ei hun erbyn hyn sy'n amlinellu eu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn.

Mynegai Cydraddoldeb Stonewall

Un ffordd y mae Heddlu Gwent yn monitro pa mor llwyddiannus yr ydym o ran hyrwyddo ac ymgorffori cydraddoldeb LHDT o fewn y gweithlu yw cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithleoedd blynyddol Stonewall. Mae'r Fynegai'n 'graddio' mudiadau'n seiliedig ar yr hyn y maent yn ei wneud i greu amgylchedd diogel a chynhwysfawr ar gyfer eu cyflogeion, cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid LHD. Eleni cyrhaeddodd Heddlu Gwent yr 101af safle allan o gyfanswm o 369 o gyflogeion o 38 o ddiwydiannau gwahanol. Er ychydig y tu allan i'r 100 uchaf, gwnaethom godi ein sgôr 9 pwynt, sy'n dangos ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o fewn y 12 mis diwethaf.

Gwnaed gwelliannau sylweddol eleni ym meysydd ymgysylltu â staff, safonau caffael ac amlygwyd nifer o'r meysydd gwaith fel arfer gorau. Cafodd Prism, Rhwydwaith Staff LHDT (Lesbiaidd, Hoyw, deurywiol a Thrawsryw) Heddlu Gwent ganmoliaeth fawr am ei effaith.

“Dylai pawb a chwaraeodd ran wrth gyflawni cynnydd mewn pwyntiau ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithleoedd Stonewall eleni deimlo'n falch eu bod yn helpu i greu Gwasanaeth Heddlu sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi staff a chymunedau LHDT. Y mis hwn edrychwn ymlaen at ddathlu'r llwyddiant hwn, yn ogystal â chyflawniadau pobl LHDT trwy gydol hanes.”
Cadeirydd Prism, PC Mark Jenkins

Arolwg Tueddfryd Rhywiol yn y Gweithle

Yr arolwg Tueddfryd Rhywiol yn y Gweithle oedd y tro cyntaf yr oedd Heddlu Gwent wedi ceisio barn gan bersonél yn benodol ar faterion tueddfryd rhywiol, a dyma'r tro cyntaf y darparwyd cyfle i bersonél adnabod eu hunain fel LHD neu T.

- Derbyniwyd 220 o ymatebion wedi'u cwblhau sy'n cyfateb i 9.3% o Heddlu Gwent (9.5% o Swyddogion a 9% o Staff yr Heddlu)
- Datganodd 17.2% o ymatebwyr eu bod yn LHD neu T. Mae'r mwyafrif yn gwbl agored am eu tueddfryd rhywiol yn y gweithle ac o'r rhain nad ydynt yn gwbl agored, y prif reswm yw nad ydynt yn teimlo ei fod yn berthnasol.
- Ar gyfer Swyddogion a staff, mae'r ystadegau'n nodi nad yw Rheolwyr Uwch yn cynrychioli cymdeithas ehangach mewn perthynas â chanran yr unigolion LHDT sy'n llenwi'r rolau hynny.
- Yn gyffredinol, teimla'r mwyafrif o ymatebwyr fod Heddlu Gwent yn gyflogwr sy'n gyfeillgar i bobl LHDT.
- Teimlodd 91% o ymatebwyr nad oeddent wedi profi neu weld unrhyw aflonyddu neu fwlio ond dywedodd rhai ymatebwyr yr oeddent wedi rhyw bryd yn ystod eu gwasanaeth.

“Roedd yr arolwg yn hynod o ddefnyddiol gan yr oedd modd i ni gael nifer o gamau gweithredu ac argymhellion ohono - gan gynnwys yr angen am fwy o gyhoeddusrwydd o gwmpas materion amrywiaeth a chydraddoldeb; hyfforddiant amrywiaeth ar gyfer rhengoedd staff penodol a mwy o gyfleoedd datblygu.”
Prif Arolygydd Simon Jeffries, Eiriolwr Heddlu Gwent, LHDT

Rhwydwaith Crefydd a Chred

Mae Eiriolwr Amrywiaeth Heddlu Gwent dros Grefydd a Chred yn bwynt cyswllt ar gyfer unrhyw swyddog neu aelod o staff a hoffai drafod materion, problemau neu fentrau sy'n ymwneud â'r maes amrywiaeth hwn. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ymarfer cwmpasu'n digwydd i adnabod p'un a oes angen neu ddymuniad i Heddlu Gwent sefydlu Rhwydwaith Cefnogi Staff ar Grefydd a Chred. Rhagwelir y byddai'r Rhwydwaith yn darparu'r canlynol:

- Cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i Heddlu Gwent yn ogystal â staff a swyddogion o gwmpas materion sy'n ymwneud â chrefydd neu gred
- Llwyfan er mwyn i bryderon gael eu codi ar lefel strategol er mwyn dylanwadu ar newid
- Cefnogaeth ar gyfer swyddogion a staff a allai fod yn profi bwlio neu aflonyddu o fewn y gweithle neu gan aelodau'r cyhoedd neu'r gweithle mewn perthynas â'u chrefydd neu gred

Polisi Cam-drin Domestig yn y Gweithle

Mae ein Polisi a Gweithdrefn Cam-drin Domestig yn y Gweithle bellach wedi'u hadolygu ac erbyn hyn yn cynnwys diffiniad 2013 y Swyddfa Gartref o Gam-drin Domestig a diffiniadau o Drais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol fel yr amlinellir mewn arweiniad a gyhoeddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae Heddlu Gwent yn cydnabod bod gan bob aelod o staff sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig yr hawl i godi'r mater a'i drafod gyda'u rheolwr a/neu adrannau eraill a all roi cefnogaeth a chyngor, gan wybod yr ymdrinnir â'r mater mewn ffordd gydymdeimladol, anfarnol, cyfrinachol ac effeithiol. Mae'r Polisi a Gweithdrefn Cam-drin Domestig yn y Gweithle'n amlinellu effaith cam-drin domestig a sut y caiff unigolion eu cefnogi. Mae'n ofynnol i bob rheolwr llinell ymgyfarwyddo â'r polisi a'r weithdrefn.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Heddlu Gwent yn parhau i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ymgorffori'n gadarn yn ein proses o lunio polisïau a gweithdrefnau. Eleni, cynhaliwyd 30 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth ddatblygu neu ddiwygio ein polisïau a gweithdrefnau ac maent wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant AEC ar gyfer personél y gallai fod yn ofynnol iddynt gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod pob penderfyniad busnes neu newid a fydd yn dylanwadu naill ai ar ein staff neu gymunedau'n cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cyfathrebiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Defnyddiwn ein mewnrwyd a chyfleuster Newyddion ar-lein, y Gwent Guardian, i atgoffa personél o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o anghenion pobl y byddant, o bosib, yn dod i gyswllt â nhw sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig. Eleni mae ein herthyglau wedi cynnwys:

- Erthygl â 'thema' wahanol ar gyfer bob diwrnod o'r wythnos Ymwybyddiaeth Troseddu, gan amlygu adnoddau ac atgoffa swyddogion am eu cyfrifoldeb i ymateb yn briodol i ddioddefwyr achosion o gasineb. Lluniwyd rhai o'n herthyglau gan aelodau o'n Rhwydweithiau Cefnogi Staff sydd â phrofiad personol o wahaniaethu neu ragfarn.
- Erthyglau i nodi Diwrnod Coffáu'r Holocost a Hil-laddiad Srebrenica
- Nodyn atgoffa i'r holl staff ar ystyriaethau mewn perthynas â chwilio pobl drawsryw a'u cadw yn y ddalfa
- Arweiniad cynhwysfawr ar gyfer yr holl swyddogion heddlu a staff y ddalfa ynglŷn â sensitifrwydd plismona ar adeg Ramadan, ac unrhyw ystyriaethau lles y dylid eu gwneud ar gyfer Moslemiaid a gedwir yn y ddalfa

4 Ein Rhwydweithiau Cefnogi Staff

Prism a'n Swyddogion Cyswllt LHDT

Prism

Gwent Police LGB&T Support Network

Mae Prism wedi cael 12 mis prysur. Ehangwyd ein presenoldeb arferol ym Mardi Gras Caerdydd yr haf diwethaf gyda stondin llawer mwy trawiadol a gweithgareddau cynnwys y gymuned ac arolwg a ddatblygwyd yn arbennig. Roedd y stondin ar ei newydd wedd yn boblogaidd iawn ac ymddangosodd ar y newyddion lleol, ac mae paratoadau bellach yn mynd rhagddo ar gyfer y Mardi Gras eleni. Mae'r rhwydwaith yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y gymuned o'i waith trwy fod yn bresennol mewn digwyddiadau megis Sparkle a Balchder Abertawe.

Mae aelodau o Prism wedi cyflwyno pecyn hyfforddi hefyd ar ymdrin â throseddau casineb homoffobig, biffobig a thrawsffobig a thrais domestig perthnasoedd o'r un rhyw o fewn Ystafell Rheoli Heddlu Gwent a'r Ganolfan Gyswllt. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o achosion yn cael eu hamlygu yn y pwynt cyswllt cyntaf ac y bydd mwy o gyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r Swyddogion Cyswllt. Rhoddwyd y cyflwyniad i'r swyddogion newydd sy'n ymuno â Heddlu Gwent hefyd, gan roi cefndir da iddynt ar sut i ddelio â'r cyfryw achosion.

Mae Prism yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus aelodau trwy hwyluso presenoldeb mewn cynadleddau a seminarau a gynhelir gan fudiadau megis Stonewall, y Gymdeithas Heddlu Trawsryw Genedlaethol a heddluoedd eraill. Mae Swyddogion Cyswllt LHDT y rhwydwaith yn cefnogi Cydlyniant Cymunedol wrth lansio'r cynllun Swyddogion Cefnogi Troseddau Casineb ac maent eisoes wedi dechrau cymryd cyfeiriadau fel rhan o'r cynllun peilot. Gellir hygyrchu ffrwd Twitter Prism, sy'n offeryn cynnwys y gymuned gwerthfawr arall ar gyfer y rhwydwaith, yn:
twitter.com/gwentpolicelgbt

Mae ein Swyddogion Cyswllt wedi bod yn brysur eleni hefyd. Yn ogystal â helpu i sefydlu a rhedeg digwyddiad ymwybyddiaeth LHDT yn y coleg yng Nglyn Ebwy, maent wedi sefydlu presenoldeb heddlu o fewn fforwm ieuenctid LHDT newydd ym Mrynbuga, ac wedi mynd i'r digwyddiadau Balchder Abertawe a Mardi Gras Caerdydd.

Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Heddlu Gwent (GEMA)

GEMA
Gwent Police Ethnic Minority Association
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Heddlu Gwent

Ffurfiwyd GEMA fel Cymdeithas Heddweision Duon Heddlu Gwent ym 1999 fel rhwydwaith cefnogi ar gyfer staff du a lleiafrifoedd ethnig. Eleni, ar ôl cyfnod o drafodaeth fe'i ailenwyd fel GEMA i adlewyrchu nifer mawr y staff a swyddogion lleiafrifoedd ethnig nad ydynt yn ddu. Mae GEMA'n parhau i gymryd rhan mewn trafod a chynghori Heddlu Gwent ar faterion Hil, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Lles Staff, ac mae hefyd yn cynllunio ffocws newydd ar ymgysylltu â'n cymunedau lleiafrifol o fewn Gwent. Un o nodau GEMA ar gyfer y flwyddyn i ddod yw cynyddu ei aelodaeth, yn enwedig aelodau o bersonél nad ydynt, efallai, yn lleiafrif gweladwy, ond sydd â threftadaeth arall, er enghraifft, ein swyddogion a staff o Ddwyrain Ewrop. Bydd GEMA yn cynnal Diwrnod Datblygu BME Cymru Gyfan eleni, ac mae eu Cadeirydd newydd wedi ymrwymo i gyflwyni ei weledigaeth 'BRAVE':

- Byddwch yn Gysylltiedig â Chymunedau BME ac arwain ar leihau troseddau casineb
- Codi proffil GEMA yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Ymgyrchu dros Heddlu Gwent i adlewyrchu'r cymunedau lleiafrifoedd ethnig y mae'n eu gwasanaethau'n well - Gwasanaeth sy'n Gweithio
- Gwerthfawrogi a chefnogi ein haelodau
- Grymuso a datblygu staff a swyddogion BME Heddlu Gwent – Cyflogwr o Ddewis

Ein Rhwydweithiau Eraill

Mae Rhwydweithiau Cefnogi Staff eraill Heddlu Gwent, Cymdeithas Menywod Heddlu Gwent a Rhwydwaith Cefnogi Anableddau Heddlu Gwent, yn parhau i gydweithio'n agos â'u Heiriolwyr

Amrywiaeth uwch i ddarparu cyngor ac arweiniad parhaus i Heddlu Gwent ar eu meysydd arbenigedd a chefnogi personél sy'n profi problemau yn y gweithle.

Ein Grŵp Ymgynghorol Annibynnol (IAG)

Mae IAG Heddlu Gwent yn ymgymryd â rôl 'cyfaill beirniadol' mewn perthynas â datblygu polisïau a gwasanaethau plismona, a phan geir digwyddiad difrifol o fewn ardal Heddlu Gwent sydd â'r potensial i effeithio'n sylweddol ar gymunedau lleol. Ar hyn o bryd mae gan yr IAG 11 aelod gweithredol o bob rhan o ardal Heddlu Gwent sydd ag ystod o brofiadau personol, cefndiroedd cymdeithasol a phroffesiynau. Mae aelodau'n gallu rhoi sylwadau ar ystod o faterion gan gynnwys anableddau, rhywedd, tueddfryd rhywiol, oedran, hil, diwylliant a chrefydd.

I gefnogi cyflwyniad Cynllun Cydraddoldeb Heddlu Gwent, eleni mae aelodau wedi'u halinio i feysydd gwaith strategol gan gynnwys Troseddau Casineb, Prevent, Cam-drin Domestig, Anableddau a Stopio a Chwilio. Bydd Arweinwyr IAG ar gyfer y meysydd hyn yn gweithio gyda'r ffrydiau gwaith perthnasol i helpu sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o brosiectau sy'n mynd rhagddo.

“Mae bod yn aelod o Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu Gwent yn rhoi cyfle i mi wneud gwir wahaniaeth; nid dim ond o ran sut mae Heddlu Gwent yn gwella fel mudiad, ond hefyd o ran sut mae'r cyhoedd yn derbyn gwasanaethau. Yr hyn sy'n arbennig o dda am fod yn aelod o'r IAG yw ei fod yn darparu mynediad i lefelau uwch Heddlu Gwent sy'n ymrwymedig i ddysgu a gwella'n barhaus. Mae gwir ymdeimlad bod eich barn yn bwysig, ac y bydd yr hyn a ddywedwch yn cynorthwyo dyluniad a datblygiad Heddlu Gwent a chyflwyniad y gwasanaeth.”
Nick, aelod o'r IAG o Abercarn

People Services,
Gwent Police,
Floor 2,
Vantage Point,
Tŷ Coch Way,
Cwmbrân,
Torfaen.
NP44 7HF

Tel: 01633 64 20 20
Fax: 01633 64 55 03
Minicom: 01633 87 75 74
www.gwent.police.uk

Community Cohesion Team
Gwent Police Headquarters,
Croesyceiliog,
Cwmbrân
NP44 2XJ

Tel: 01633 247907
Email: communitycohesion@gwent.pnn.police.uk

Office of the Police and Crime Commissioner,
Gwent Police Headquarters,
Croesyceiliog,
Cwmbrân
NP44 2XJ

Tel: 01495 64 22 00
Email: commissioner@gwent.pnn.police.uk
www.gwent.pcc.police.uk

Professional Standards Unit,
Gwent Police,
Caerleon House,
Mamhilad Park Estate,
Pontypool.
NP4 0XX

Tel: 01495 74 53 7

Equality and Human Rights Commission (EHRC) – Wales Office
3rd Floor,
3 Callaghan Square,
Cardiff.
CF10 5BT

Tel: 0845 604 8810 (helpline)
0845 604 8820 (helpline text phone)
029 2044 7710 (non-helpline calls only)
0845 604 8830 (helpline fax) 029 2044 7712 (non-helpline fax)
Email: wales@equalityhumanrights.com

Ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig

Amcan 1: Cam-drin Domestig/Rhywiol a Thrais Seiliedig ar Anrhydedd

Sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent i gam-drin domestig yn briodol ac yn hygyrch i bob cymuned, gan gynnwys y rhai a allai wynebu rhwystrau penodol wrth adrodd am achosion o gam-drin domestig, ac i sefydlu gwir ddarlun o nifer a natur yr achosion o HBV sy'n digwydd yn ardal Heddlu Gwent. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Parhau i fonitro nodweddion gwarchodedig dioddefwyr cam-drin domestig a mynd i'r afael â meysydd o danadrodd anghymesur	Cyflwyno ystod o fentrau i dargedu pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig nad ydynt yn hygyrchu gwasanaethau plismona mewn perthynas â cham-drin domestig	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Cynnydd mewn adrodd gan ddioddefwyr gwryw, LHDT ac anabl
Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth penodol i'r Tîm Diogelu o gwmpas gweithio gyda chymunedau amrywiol	Cynyddu arbenigedd o fewn y mudiad, gan ddarparu lefel gefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer dioddefwyr	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Nifer o sesiynau ymwybyddiaeth wedi'u cyflwyno i bersonél
Darparu gwybodaeth hygyrch i gymunedau amrywiol a mudiadau trydydd parti perthnasol am gam-drin domestig, gan gynnwys ystod o opsiynau adrodd	Cynnydd mewn ymwybyddiaeth ac opsiynau adrodd ar gyfer grwpiau yr ystyrir yn draddodiadol eu bod yn 'anodd eu cyrraedd'	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Mawrth 2015	Nifer neu enghreifftiau o achosion o ymgysylltu â chymunedau amrywiol mewn perthynas â materion cam-drin domestig
Darparu gwybodaeth ar gyfer yr holl swyddogion a staff am gymunedau a allai fod yn wynebu rhwystrau penodol i adrodd, neu y gallai fod angen cefnogaeth wedi'i theilwra arnynt (er enghraifft, dioddefwyr gwrywaidd, pobl anabl, menywod Sipsiwn a Theithwyr, pobl mewn perthynas â'r un rhyw)	Darparu lefel gefnogaeth uwch ar gyfer dioddefwyr ac adnabod unrhyw ffactorau risg ychwanegol mewn cam cynnar	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Mehefin 2014	Nifer neu enghreifftiau o achosion o wybodaeth neu gyfathrebu mewnol o gwmpas cam-drin domestig a chymunedau amrywiol
Cynyddu ymwybyddiaeth o fewn ysgolion a cholegau o HBV a'r arwyddion rhybudd y gall myfyrwyr eraill neu staff eu hadnabod	Ymwybyddiaeth gynyddol ysgolion a phobl ifanc o arferion HBV, ac adnabod risgiau'n gynnar	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Parhaus	Nifer neu enghreifftiau o fentrau a redir mewn ysgolion mewn perthynas â HBV
Adnabod a chofnodi achosion o HBV/FGM yn well ar y pwynt adrodd	Sefydlwyd darlun mwy cywir o faint a natur achosion o HBV/FGM o fewn Gwent	Amddiffyn y Cyhoedd	Mawrth 2016	Mecanweithiau cofnodi cadarn wedi'u rhoi ar waith a'u defnyddio'n gyson o fewn systemau Heddlu Gwent

Amcan 2: Troseddau Casineb

Sicrhau bod dioddefwyr pob math o droseddau ac achosion o gasineb yn derbyn ymateb priodol gan Heddlu Gwent a fydd yn adnabod pobl sy'n agored i niwed mewn cam cynnar, yn eu cefnogi yn y ffordd orau, ac yn cynyddu'r cyfle o erlyniad llwyddiannus. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Cyflwyno'r canlynol trwy Gynllun Gweithredu Troseddau Casineb Heddlu Gwent: 1. Sefydlu system asesu risg a MARAC sy'n gyson ar draws pob LPU	Darparu ymyrraeth briodol ac aml-asiantaeth ar y cam cynharaf posib ar gyfer dioddefwyr bregus pob math o drosedd gasineb	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Cynllun peilot o'r system MARAC
2. Creu gweithlu sy'n deall materion, effeithiau ac anghenion cymunedau unigol	Staff a swyddogion mwy gwybodus sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i adnabod ac ymdrin â throseddau casineb	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Ail Gam yr hyfforddiant wedi'i gyflwyno i Sarsiantiaid NPT
3. Herio agweddau gwahaniaethol ac anoddefgar ac ymyrryd yn gynnar er mwyn atal pethau rhag gwaethygu	Adnabod dioddefwyr sy'n agored i niwed ac anabl a dioddefwyr cyson yn gynnar	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Adolygu'r VRA a rhoi'r system rheoli
4. Cyflawni gwella adnabyddiaeth o droseddau casineb, perchnogaeth ar achosion a'u rheoli	Cynnydd mewn erlyniadau llwyddiannus/ troseddwyr yn wynebu cyfiawnder a gwell gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Prosesau ar waith o fewn NPT i reoli a pherchen ar droseddau ac achosion o gasineb yn effeithiol
5. Cynyddu adrodd a gwella mynediad i wasanaethau cefnogi dioddefwyr, yn enwedig ar gyfer troseddau casineb mewn perthynas ag anableddau	Systemau adrodd trydydd parti ac uniongyrchol sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben. Adolygiadau rheolaidd o lefelau boddhad dioddefwyr	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Rhoi system adrodd trydydd parti effeithiol ar waith ar draws Gwent a monitro lefelau adrodd a boddhad dioddefwyr troseddau casineb mewn ffordd systematig

Amcan 3: Prevent

Gweithio gyda phob cymuned i isafu unrhyw effaith negyddol y gallai gweithrediadau gwrthderfysgaeth ei chael arnynt, a gwella hyder mewn cymunedau i adrodd am ddigwyddiadau sy'n peri pryder. (Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Cyflwyno'r canlynol trwy Gynllun Cyflwyno Prevent Heddlu Gwent: 1. Ymgysylltu ymhellach â chymunedau i bennu'r effeithiau lleol y mae gweithgareddau Prevent wedi'u cael o fewn Gwent (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)	Adnabod unrhyw gamau y mae eu hangen i ymdrin ag unrhyw effaith negyddol neu densiwn cymunedol sy'n deillio o weithgareddau Prevent cyfredol	Arweinydd Prevent	Mehefin 2014	Cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gweithgareddau Prevent
2. Ymgysylltu ymhellach â chymunedau Asiaidd ifanc a menywod Asiaidd, gan sefydlu mecanweithiau adborth rheolaidd ar gyfer meysydd trosedd ac anhrefn sy'n peri pryder	Ffydd a hyder cynyddol mewn gwasanaethau plismona	Arweinydd Prevent	Parhaus	Mae mecanweithiau'n ar waith i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r cymunedau hyn o gwmpas y blaenoriaethau lleol a adnabuwyd ar eu cyfer
3. Darparu gwybodaeth hygyrch i gymunedau ynghylch Prevent, ei ddiben a gweithgareddau'r Heddlu	Herio unrhyw ystrydebau neu ganfyddiadau cymunedol negyddol yr agenda Prevent a gweithgareddau'r heddlu	Arweinydd Prevent	Parhaus	Nifer neu enghreifftiau o ddeunyddiau/ sesiynau ymwybyddiaeth Prevent a gyflwynwyd i gymunedau

Amcan 4: Y Ddalfa

Adnabod anghenion penodol pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn y ddalfa'n briodol ac yn hyblyg (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol) Camau Gweithredu wedi'u croesgyfeirio yn erbyn meini prawf a bennwyd gan HMIC yn eu dogfen 'Disgwyliadau ar gyfer Dalfa'r Heddlu', 2012.

Action	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Gweithio gyda chymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth swyddogion a staff yr heddlu sy'n gweithio yn y ddalfa o anghenion pobl o gefndiroedd amrywiol (Adran 2 Disgwyliadau: Parch, 2)	Hyder cynyddol mewn cymunedau a gwell ymwybyddiaeth ymysg swyddogion a staff sy'n gweithio gyda grwpiau amrywiol yn amgylchedd y ddalfa	Prif Arolygydd y Ddalfa	Parhaus	Nifer neu enghreifftiau o achosion o ymgysylltu â chymunedau amrywiol wrth gynllunio gwasanaethau'r ddalfa ac addysgu staff
Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael yn y ddalfa ynglŷn â hawliau, hawliadau a thriniaeth mewn ystod o fformatau ac ieithoedd hygyrch, gan gynnwys y Gymraeg, a gwella'r sefyllfa pan fydd angen (Adran 2 Triniaeth ac Amodau: Arsylwi, 2) (Adran 3 Hawliau Unigol: Disgwyliadau, 12) (Adran 3 Hawliau Unigol: Disgwyliadau, 16)	Mae aelodau'r cyhoedd sydd ag anawsterau cyfathrebu neu anghenion iaith yn cael gwybodaeth dda am eu hawliau	Prif Arolygydd y Ddalfa	Ebrill 2015	Enghreifftiau o wybodaeth a gynhyrchwyd mewn fformatau ac ieithoedd hygyrch
Adolygu a gwella monitro nodweddion gwarchodedig o fewn y system ddalfa pan fydd angen	Darparu gwasanaeth sy'n addas i'r diben ac yn ystyried anghenion unigol	Prif Arolygydd y Ddalfa	Mawrth 2015	Y gallu i gofnodi manylion mewn perthynas ag oedran, anabledd, tueddfryd rhywiol, hil a chrefydd a hunaniaeth rhyw pan fydd hyn yn cyfeirio asesiad risg a / neu ddylunio gwasanaethau

Amcan 5: Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Cynyddu ffydd a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn ein gwasanaethau plismona a hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr heddlu, Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau sefydlog (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Adolygu Gweithdrefn Gwersyllfannau Anghyfreithlon Heddlu Gwent ac asesu p'un a oes angen darparu unrhyw arweiniad pellach i swyddogion	Arweiniad Cynhwysfawr Heddlu Gwent ar gael i'r holl swyddogion	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Cyhoeddir Gweithdrefn Briodol
Datblygu a hyrwyddo arweiniad Heddlu Gwent ar arferion diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr	Dealltwriaeth gynyddol staff a swyddogion mewn perthynas â diwylliant Sipsiwn/ Teithwyr	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Enghreifftiau o Arweiniad Heddlu Gwent wedi'u cyhoeddi
To scope the current levels of engagement with Gypsy and Traveller communities across LPUs, identify and share best practice	Gwell ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Efelychu arfer da ar draws Heddlu Gwent
Adnabod personél allweddol a fyddai'n elwa o hyfforddiant wedi'i dargedu o gwmpas materion Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cefnogi ymgysylltu'n effeithiol	Swyddogion lleol â sgiliau priodol a all ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn fwy effeithiol	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Nifer neu enghreifftiau o swyddogion a hyfforddwyd
Sicrhau y gall Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr hygyrchu gwybodaeth am faterion plismona a allai effeithio arnynt - gan gynnwys troseddau casineb, cam-drin domestig a deddfwriaeth ysborion metel	Cymunedau mwy gwybodus gyda chyfleoedd cynyddol i hygyrchu gwasanaethau plismona	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Enghreifftiau o ymgysylltu o gwmpas y materion hyn neu ddeunyddiau wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu

Amcan 6: Stopio a Chwilio

Sicrhau bod gweithgareddau stopio a chwilio'n cael eu cyflawni mewn ffordd gyfreithlon, gymesur, anwahaniaethol ac sy'n datblygu cysylltiadau cadarnhaol o fewn a rhwng cymunedau a'r heddlu. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Cyflwyno Cynllun Gwella Stopio a Chwilio Heddlu Gwent sy'n canolbwyntio ar 4 maes Cyflwyno allweddol: Maes Cyflwyno 1: Arweinyddiaeth Nod: Darparu arweinyddiaeth gref a gweladwy o gwmpas materion stopio a chwilio	Codi proffil stopio a chwilio o fewn Heddlu Gwent a chyflwyno negeseuon cryf a chyson o gwmpas disgwyliadau corfforaethol	PGC	Mawrth 2015	Enghreifftiau o negeseuon / cyfathrebiadau gyda phersonél ym mhob lefel o'r mudiad
Maes Cyflwyno 2: Ansawdd a Dadansoddiad Data Nod: Adolygu a gwella ansawdd data	Data sy'n ddigon cadarn i gyfeirio penderfyniadau rheolwyr a Heddlu Gwent	PGC	Mawrth 2015	Data y profir ei fod yn adlewyrchu nifer yr achosion o stopio a chwilio a gyflawnir, sy'n cysylltu'n effeithiol â chanlyniadau ac y gellir ei fapio'n effeithiol yn erbyn patrymau troseddau
Maes Cyflwyno 3: Craffu Nod: Rhoi systemau ar waith sy'n caniatáu craffu mewnol ac allanol parhaus o ansawdd achosion o stopio a chwilio	Craffu prosesau stopio a chwilio'n rheolaidd ac yn systematig gan y cyhoedd a phersonél allweddol	PGC	Mawrth 2015	Tystiolaeth o graffu parhaus ac ystyrlon o berfformiad stopio a chwilio
Maes Cyflwyno 4: Cysylltiadau Cymunedol Nod: Sicrhau bod gan gymunedau lleol fynediad i wybodaeth berthnasol o gwmpas gweithgareddau stopio a chwilio ac nad yw defnydd Heddlu Gwent o'r pŵer yn effeithio'n negyddol ar hyder y cyhoedd	Hyder cyhoeddus cynyddol mewn defnydd Heddlu Gwent o bwerau stopio a chwilio	PGC	Mawrth 2015	Enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol â'r gymuned o gwmpas stopio a chwilio; rhoi'r Cynllun Defnydd Gorau Stopio a Chwilio o fewn Gwent; mynediad gwell i wybodaeth am hawliau, hawliadau a chwynion

Amcan 7: Anableddau

Cynyddu ffydd a hyder pobl anabl yn y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a chadw aelodau staff anabl trwy eu galluogi i gymryd rhan a chyfrannu'n llawn trwy ymdrin â rhwystrau o fewn y gweithlu lle bo'n bosib. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Gweithio gyda phobl anabl a phobl â salwch meddwl i asesu eu lefelau hyder yn Heddlu Gwent	Gwasanaethau sy'n cael eu cyfeirio a'u gwella gan 'wersi a ddysgwyd'	Arweinydd Iechyd Meddwl / Eiriolwr Anableddau	Mawrth 2015	Mesurau ar waith i asesu lefelau boddhad a hyder yn y system blismona
Ymgysylltu'n effeithiol â phobl anabl er mwyn datblygu gwasanaethau plismona sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i bobl anabl neu bobl ag anawsterau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd brys a'r rhai nad ydynt yn frys	Gwell mynediad i, a hyder mewn, gwasanaethau plismona ar gyfer pobl anabl	Eiriolwr Anableddau / Cydlyniant Cymunedol	Mawrth 2016	Fforwm Anableddau wedi'i sefydlu, wedi'i fynychu gan bobl anabl a chynrychiolwyr mudiadau pobl anabl Gweithredu / adnewyddu systemau cyswllt gan gynnwys: • Adrodd SMS 101/999 • Pegasus • Cerdyn Awtistiaeth
Cyflwyno hyfforddiant priodol i swyddogion a staff mewn perthynas ag anableddau a salwch meddwl	Personél mwy gwybodus sy'n gallu ymdrin ag aelodau'r cyhoedd yn fwy priodol	Eiriolwr L&D / Anableddau	Parhaus	Enghreifftiau o sesiynau ymwybyddiaeth /nifer o swyddogion a staff a hyfforddwyd

Amcan 8: Cyflogwr o Ddewis

Adeiladu amgylchedd gweithio cynhwysol a chefnogol sy'n anelu at ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon. Bod yn fudiad lle mae pobl yn cael eu trin â pharch a thegwch, yn cael eu meithrin a'u datblygu mewn ffyrdd sy'n symud cyfle cyfartal ymlaen ac yn helpu cyflwyno gwasanaeth plismona ardderchog i ddinasyddion Gwent.

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Adnabod meysydd allweddol lle mae angen cywain data cyflogaeth. Sicrhau bod data cyflogeion yn cael ei goladu a'i gofnodi'n gyson, yn gywir ac yn gadarn o ran data Cydraddoldeb. Adnabod tueddiadau o gywain data a chymryd camau priodol i ymdrin â meysydd o anghyfartaledd ar draws nodweddion gwarchodedig.	Mudiad lle mae personél yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg a chyda pharch a bod proffil amrywiaeth y gweithle'n cael ei gydbwyso ar draws rolau / rhengoedd, yn benodol rolau arbenigol.	Rheolwr AD, Pennaeth L&D / Rhwydweithiau Staff/Eiriolwyr Cydraddoldeb	Cynnydd blynyddol hyd at Mawrth 2016	Gallu i gofnodi manylion mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig. Bydd nifer o enghreifftiau'n dangos pa gamau a gymerwyd i ymdrin â thangynrychiolaeth neu anghyfartaledd.
Adolygu trefniadau gweithio hyblyg i sicrhau bod cefnogaeth berthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig yn bodoli sy'n adlewyrchu anghenion staff a'u bod wedi'u cydbwyso ag anghenion y mudiad.	Mudiad sy'n rheoli gweithio hyblyg yn effeithiol, gan gefnogi'r unigolyn (yn benodol gweithwyr hŷn ac anabl, gofalwyr a rhieni) yn ogystal â diwallu anghenion y mudiad.	Rheolwr AD / Rhwydweithiau Cefnogi / Eiriolwr Mamolaeth a Gweithio Hyblyg / Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw	Mawrth 2015	Darperir gwybodaeth mewn perthynas â mynediad, tueddiadau, anawsterau wrth ganiatáu gweithio hyblyg a'i gyfatebiaeth â salwch a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Gweithdrefnau wedi'u diweddaru. Datblygu pecyn cefnogi gweithio hyblyg. Cronfa ddata fanwl o wybodaeth ar gael i staff ei hygyrchu. Cynhyrchir ffilm i gynyddu gwybodaeth o weithio hyblyg. Gweithio gydag Eiriolwyr Cydraddoldeb eraill i alinio gweithrediad y 'pecyn cymorth' a'r 'eiriolwyr' cefnogi mentora Creu rhestr o gefnogaeth a mentoriaid lleol i gefnogi trafodaethau am weithio hyblyg.

Adolygu trefniadau mamolaeth i sicrhau bod cefnogaeth berthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig yn bodoli sy'n adlewyrchu anghenion staff. Adnabod ac ymdrin ag unrhyw faterion mewn perthynas â'r canlynol: - Bylchau mewn gwybodaeth rheolwyr llinell mewn perthynas â materion mamolaeth - Y rolau cyfyngedig a gyflawnir gan swyddogion / staff benywaidd a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddatblygiad / cynnydd.	Mudiad sy'n cefnogi'r unigolyn yn effeithiol yn ystod beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth a'i dychweliad i'r gwaith. Mae swyddogion a staff benywaidd yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a heb fod o dan anfantais gan iddynt gael cyfnod o absenoldeb mamolaeth.	Rheolwr AD / Rhwydweithiau Cefnogi / Eiriolwr Mamolaeth a Gweithio Hyblyg	Mawrth 2015	Gweithdrefnau wedi'u diweddaru. Datblygu pecyn cefnogi gwaith mamolaeth. Cyhoeddir gwybodaeth mewn perthynas â gweithgareddau bwydo ar y fron. Tystiolaeth o gyfleusterau bwydo ar y fron yn cael eu hystyried/ defnyddio. Tystiolaeth o wybodaeth gynyddol rheolwyr llinell am faterion mamolaeth. Tystiolaeth o ba un a yw rolau cyfyngedig a gyflawnir gan staff/swyddogion benywaidd yn effeithio ar ddatblygiad/ cynnydd neu beidio.
Adolygu deunyddiau cyflwyno cyrsiau i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei gynnwys a'i brif-ffrydio fel rhan o'r holl gyrsiau pan fo'n briodol.	Mudiad lle mae staff Heddlu Gwent yn trin ei gilydd ac aelodau'r cyhoedd gyda pharch, tegwch, cwrteisi a phroffesiynoldeb.	Pennaeth L&D	Parhaus	Tystiolaeth o ddeunyddiau cwrs wedi'u hadolygu a'u diweddaru.
Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i gynyddu dealltwriaeth o sut y gall staff hygyrchu addasiadau rhesymol a / neu gefnogaeth trwy'r cynllun Mynediad i Waith a darparu arweiniad / hyfforddiant penodol ar gyfer goruchwylwyr i'w galluogi i roi hyn ar waith.	Mae swyddogion ac aelodau staff anabl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan Heddlu Gwent.	Rheolwr AD / Rhwydwaith Cefnogi / Eiriolwr Anableddau	Mai 2014	Gwybodaeth ar gael i gynorthwyo sut y gall personél yr heddlu hygyrchu addasiadau rhesymol a / neu gefnogaeth trwy'r cynllun Mynediad i Waith. Tystiolaeth o fynediad effeithlon i gefnogaeth. Ymgorffori ymwybyddiaeth gydraddoldeb yn yr arweinyddiaeth seiliedig ar werthoedd a gynllunnir ar gyfer y rhai sy'n rheolwyr llinell am y tro cyntaf.

Darparu arweiniad/hyfforddiant i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu prif-ffrydio o fewn polisïau a phrosesau Heddlu Gwent. Sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal pan fydd newidiadau yn yr ystâd neu wasanaethau busnes yn arwain at adleoli personél er mwyn adnabod ac ymdrin yn briodol â gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol posib.	Pan gânt eu heffeithio gan gyflwyniad neu newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau neu mewn cyfnodau o newidiadau busnes, mae aelodau o bersonél Heddlu Gwent yn teimlo bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd pan adnabyddir y cyfryw effaith.	Pennaeth L&D / Rheolwr AD	Parhaus	Tystiolaeth o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau pan fydd newidiadau busnes wedi digwydd.
Rhoi'r argymhellion sy'n weddill o'r Arolwg Tueddfryd Rhywiol yn y Gweithle ar waith	Mae Heddlu Gwent yn cael ei ystyried yn fudiad sy'n gyfeillgar i LHDT ac yn weithle gwych. Mudiad sy'n sensitif i faterion mewn perthynas â thueddfryd rhywiol a thrawsryw. Gweithlu sy'n wybodus ac wedi'i addysgu'n dda a ble mae personél blaengar ac wedi'u cefnogi'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd.	Ymgynghorydd AD (arweinydd LHDT) / Rhwydwaith LHDT / Eiriolwr LHDT	Medi 2014	Camau gweithredu wedi'u hymgorffori yng nghynllun newydd yr Eiriolwr LHDT
Cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall er mwyn codi ein safle.	Mae Heddlu Gwent yn cael ei ystyried yn fudiad sy'n gyfeillgar i LHDT ac yn weithle gwych. Mudiad sy'n sensitif i faterion mewn perthynas â thueddfryd rhywiol a thrawsryw. Gweithlu sy'n wybodus ac wedi'i addysgu'n dda a ble mae personél blaengar ac wedi'u cefnogi'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd.	Ymgynghorydd AD (arweinydd LHDT) / Rhwydwaith LHDT / Eiriolwr LHDT	Bob blwyddyn	Camau gweithredu i wella'r ymateb i'r Arolwg Stonewall Gweithredu Cadarnhaol Dysgu ac unrhyw gam gweithredu gan y rhai sydd wedi cael eu bwlio neu eu haflonyddu. Addysg / ymwybyddiaeth mewn perthynas â materion LHDT
Cwmpasu dichonoldeb a dymuniad ar gyfer rhwydwaith cefnogi seiliedig ar Grefydd/ Cred o fewn Heddlu Gwent	Mae Heddlu Gwent yn fudiad sy'n annog personél i godi unrhyw faterion / rhwystrau y maent yn eu profi mewn perthynas â chrefydd neu gred trwy'r cyfle i gyflwyno rhwydwaith cefnogi seiliedig ar Grefydd / Gred.	Eiriolwr Crefydd a Chred	Awst 2014	Gwaith ymgysylltu a gyflawnwyd a chanlyniadau a gyhoeddwyd

Gwella diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol mewn perthynas â menywod yn y gweithle	Gwelliannau mewn: -Cyfathrebu -Rheolwyr gwrywaidd yn dangos gwell dealltwriaeth o faterion meddygol -Gweithio Sifftiau -Ffydd a Hyder o gwmpas materion cyfrinachedd -Deall ac adnabod straen a'i achosion ar gyfer iechyd menywod	Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw/ Rhwydweithiau GWPA	Cynnydd blynyddol hyd at Mawrth 2016	Clinigau Lles Tystiolaeth o gefnogaeth a ddarperir tra ar absenoldeb mamolaeth
Gwell presenoldeb menywod o'i gymharu â dynion	Bydd presenoldeb menywod yn gwella i gyfateb i bresenoldeb dynion neu'n rhagori arno	Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw / Rhwydweithiau GWPA	Cynnydd blynyddol hyd at Mawrth 2016	Cyflawnwyd ymarfer ymchwilio i ddod o hyd i'r gwir resymau pam - Safbwyntiau wedi'u cofnodi'n ddienw - Adroddiad wedi'i gynhyrchu Goruchwylwyr benywaidd yn cefnogi prosesau dychwelyd i'r gwaith. Bydd Eiriolwr Benywaidd yn cael ei greu o fewn Heddlu Gwent fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer materion menywod.
Datblygu arolwg ar faterion rhyw gydag eiriolwyr cydraddoldeb.	Cofnodir materion benywaidd a gwrywaidd trwy newidiadau sefydliadol.	Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw / Rhwydweithiau GWPA	Mawrth 2015	Canolbwyntio camau gweithredu wedi'u targedu ar faterion sy'n ymwneud â staff.